# tafod elái

Mai 2020

Rhif 347


## Chwarae dros Gymru



Martin Powell yn derbyn ei gap gan Alan Donald ( De Affrica).

Llongyfarchiadau i Martin Powell, Creigiau, ar gynrychioli Cymru yng Nghwpan Criced y Byd (dros 50oed) yn Ne Affrica ym Mis Mawrth. Mae'r hanes ar dudalen 4.

## Tri deg mlynedd yn ôl

Prynhawn dydd Sadwrn 5ed o Fai 1990 rhoddwyd croeso arbennig gan drigolion Tonyrefail i dros 1000 o blant ysgolion Taf Elái oedd yn gorymdeithio drwy'r dre i ddathlu Cyhoeddi Eisteddfod yr Urdd Taf Elai 1991.

## Diolch i'n Gofalwyr

Ar adeg fel hon mae pobl yn dechrau dod i sylweddoli faint o bobl sydd yn cadw'r olwyn i droi beth bynnag fo'r amgylchiadau.

Mae'r holl weithwyr yn y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol, yn nyrsus, meddygon, glanhawyr, gyrrwyr ambiwlans ac yn y blaen, i gyd yn sicrhau fod y gofal gorau posib ar gael. Yn ogystal mae llu o ofalwyr yn sicrhau fod henoed mewn cartrefi gofal ac yn eu cartrefi yn mwynhau eu hymddeoliad.

Mae angen nawr i bawb sicrhau fod y gwaith yma yn cael ei gydnabod a bod y ddarpariaeth gorau ar gael iddynt wneud y gwaith.

## Tafod Elái ar y Wê

**Mae'r rhifyn yma yn cael ei ddosbarthu drwy ebost. Rhannwch gyda'ch ffrindiau. Danfonwch ymlaen i unrhyw un sy'n gallu, neu dysgu, siarad Cymraeg. Danfonwch ymlaen i holl aelodau eich cymdeithasau. Danfonwch i unrhyw le yn y byd!**

## Tarian Cymru

Cefnogwch yr ymgyrch codi arian i roi offer gwarchodol i weithwyr iechyd a gofal yng Nghymru

https://www.gofundme.com/f/tariancymru

## Bod yn Feddyg yng nghyfnod COVID-19

Mae yna ddau Dr Herbert yn ein teulu bach ni yng Nghreigiau. Mae Bethan yn Feddyg Teulu yn Nhreganna a'r mab, Geraint, yn Llawfeddyg dan hyfforddiant yn ardal Rhydychen.

I feddygon teulu, mae cymaint o newidiadau wedi digwydd yn ein ffyrdd ni o weithio a hynny mewn cyfnod mor fyr. Er hynny cofiwch ein bod ni'n dal ar agor ac yna i chi pan fod angen.

Mae pethau'n newid bron bob dydd, ond ar hyn o bryd, os wnewch chi gysylltu gyda'ch meddyg teulu mae'n debygol y bydd y person sy'n ateb y galwad yn gofyn am ychydig o wybodaeth ynglŷn â'r rheswm am yr alwad, ac yn hytrach na chynnig apwyntiad yn rhoi'ch enw lawr ar restr gwaith y meddyg neu'r nyrs fel bo angen. Fel arfer cewch chi alwad ffôn yn gyntaf gyda'r bwriad o gynnal ymgynghoriad llawn dros y ffon. Gan amlaf mae hynny'n ddigon i ni gael y wybodaeth sydd angen i'ch helpu'n ddiogel ond os bydd angen mwy o wybodaeth efallai wnawn ni ofyn i chi anfon llun i ni dros e-bost diogel neu symud ymlaen i wneud ymgynghoriad gan ddefnyddio technoleg fideo. Gallwn ni hefyd anfon gwybodaeth atoch chi drwy neges destun.

Rydym ni'n ceisio cael cyn lleied o feddygon yn gweithio yn adeilad y feddygfa â phosib ar unrhyw adeg, er mwyn ceisio osgoi salwch o fewn y tîm. Mae'n bosib gwneud tipyn o'r gwaith o adre gan ddefnyddio cyswllt diogel, sy'n ein galluogi i ddefnyddio cyfrifiadur adref yn union fel pe baem ni yn y feddygfa, gan gynnwys argraffu presgripsiwn neu nodyn salwch dros y we.

Parhad ar dudalen 3 >






tafod elái

**GOLYGYDD**
**Penri Williams**
**029 20890040**

**CYHOEDDUSRWYDD**
**Colin Williams**
**029 20890979**

Erthyglau a straeon ar gyfer rhifyn mis Mehefin i gyrraedd erbyn 29 Mai 2020 Cyhoeddir y rhifyn os daw digon o ddeunydd i law.

**Y Golygydd**
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

*Tafod Elái ar y wê*
**http://www.tafelai.com**

*Argraffwyr:*
EVANPRINT
www.evanprint.co.uk

CYMRAEG
*Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru*

**Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro**

**Andrew Reeves**

**Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes**

**Ffoniwch**

**Andrew Reeves**
**01443 407442**
**neu**
**07956 024930**

**I gael pris am unrhyw waith addurno**



## Ysgol Llanhari

Daeth tro ar fyd. Ers dydd Llun 30ain o Fawrth bu Ysgol Llanhari yn gweithredu fel un o saith Ysgol Hwb yn Rhondda Cynon Taf. Mae disgyblion o ysgolion cyfagos, clystyrrau Ysgol Gyfun Y Pant ac Ysgol Llanhari, wedi ymuno â disgyblion Ysgol Llanhari i dderbyn gwasanaeth gofal plant. Bu hyd at hanner cant o blant gweithwyr allweddol a phlant bregus yn mynychu yr Hwb bob diwrnod gwaith ers diwedd Mawrth rhwng 8 a 6 o'r gloch. Trefnwyd ystod o weithgareddau chwaraeon a chreadigol iddynt ac ambell ysbaid tawel i wylio ffilm a chwblhau gwaith ysgol. Rydym yn hynod ddiolchgar i holl staff ysgolion y clystyrrau am eu presenoldeb a'u parodrwydd i helpu mewn cymaint o ffyrdd amrywiol er mwyn sicrhau bod y gweithwyr allweddol yma yn gallu parhau i weithio. Bu'n gyfnod o ddysgu ac arfer i nifer fawr ohonom a chyfle gwirioneddol i weithio fel tîm.




(Cyflwynwyd y plac yma i'r Hwb gan riant sy'n weithiwr allweddol)





# GILFACH GOCH

*Gohebydd Lleol: Dawn Walters*

**Cyngor Cymuned**
Ymddeoliad hapus i Mrs Edwina Jones ar ôl 28 mlynedd o wasanaeth ffyddlon fel clerc a swyddog cyllid y Cyngor. Mae Edwina yn bwriadu treulio mwy o amser gyda'i theulu a llawer mwy o wyliau tramor gyda'r gŵr cyn bo hir. Apwyntiwyd Mrs Dawn Walters yn ei lle.

**Darparu Prydau Bwyd**
Mae'r clwb rygbi wedi bod yn brysur ar ddiwrnodau Sadwrn yn darparu prydau bwyd yn rhad ac am ddim, ar y cyd gyda Beefy's Baps o Donyrefail, i'r henoed a'r rhai sydd ddim i fod gadael y tŷ yn ystod yr amser anodd hon. Darparwyd 100 pryd o fwyd bob dydd Sadwrn. Curiad dwylo mawr i chi gyd.
Mae'r caffi CF39 yn cynnig gwasanaeth prydau bwyd i'w casglu neu gludiant i'ch tai 6 diwrnod yr wythnos, gyda 2 bryd yn dod ar ddydd Sadwrn - 1 i gadw ar gyfer ddydd Sul. Y gost yw £4 yr un. Mae Miss Betsi Griffiths yn hynod o ddiolchgar am y gwasanaeth.

**Nos Iau 8 o'r gloch**
Hyfryd clywed curiad dwylo bob nos Iau am 8 o'r gloch ar gyfer gweithwyr yr NHS. Mae'n atseinio o amgylch y cwm i gyd. Mae hefyd yn amser i gofio'r niferoedd sydd wedi colli eu bywydau yn ystod yr wythnosau diwethaf.

**Addoli**
Drysau'r eglwysi a chapeli ar gau fel bob man arall ond mae Moreia a Bethel wedi bod yn ffodus iawn. Diolch byth am dechnoleg. Paratowyd gwasanaethau arbennig y Pasg gan y Parchedig Rachel Wheeler a danfonwyd y rhain trwy e-bost i'r rhai sydd gyda'r cymhwyster a trwy'r post ar cd i'r gweddill. Diolch yn fawr iawn iddi hi am ei gwaith di-baid.

**Gwersi'r iaith Gymraeg Helen Prosser**
Braf clywed fod Graham a Jo Lewis o'r Heathlands yn dal ati. Da iawn chi.





# Sgrifennu am y byd yn grwn

## Dafydd Huws, 1949-2020

Fe ddes i i nabod Dafydd yn y coleg yn Aber yn 1970. Fe oedd pennaeth Neuadd Ceredigion ar y prom a phan o'n i'n cael cinio bob nos yn yr islawr roedd e a sawl un arall yn gwisgo gŵn dros grys T a jîns. Hyd yn oed yr amser 'ny fe fyddai'n anwesu ei farf wrth fyfyrio.

Neuadd ddwyieithog oedd hi a'r flwyddyn 'na, os wy'n cofio'n iawn, roedd Lloeger yn whare yn erbyn Gorllewin yr Almaen yng Nghwpan y Byd ym Mecsico. Fe brynon ni sgarffie Gorllewin yr Almaen a'u gwisgo nhw yn lolfa deledu'r neuadd er mwyn hala'r Saeson yn grac.

Roedd Dafydd wedi ennill mewn ambell i Steddfod yn Ysgol Brynrefail ond ni ddilynodd gwrs Ysgrifennu Creadigol Bobi Jones yn y coleg am ei fod yn 'fecanyddol'.

Bob wythnos rhwng 1971 a 1982 fe oedd awdur colofn deledu Charles Huws yn *Y Faner*. Tipyn o gamp. I rai, y golofn oedd y rheswm penna am ddarllen y papur gan ei bod yn chwa o awyr iach. Roedd yn sgrifennu'n bryfoclyd, yn ddifyr, yn rhoi pin ym malŵn y sefydliad, gan gynnwys gwleidyddion fel 'Nihil Kinnock'.

Wrth adolygu rhaglen *Tomos a Thitw*, dywedodd: ' ... gwan, corni, di-fflach oedd y sgript nad oedd ynddi i mi gymaint ag un lein ddoniol ... Onid yw'r Gymru Gyfoes yn gyforiog o sefyllfaoedd cymdeithasol yn crefu am driniaeth ddychanol?'

Yn 1978 fe gafodd *Dyddiadur Dyn Dwad* ei chyhoeddi. Cyhoeddiadau Mei oedd y cyhoeddwyr cynta ac roedd yr awdur wedi edrych ymlaen at fodio'r copi cynta. Pan agorodd y gyfrol fe dasgodd y styffylau dros ei benliniau.

Roedd wedi darllen *Dubliners* Joyce ac am sgrifennu am y byd yn grwn nid rhannau dethol ohono fe. Ar un lefel, ei nod oedd 'rhoi laff i'r hogia' ond roedd yn torri tir newydd, ei arddull yn garnifalaidd, yn ysgawn ond yn ddychanol, yn neud sbort ar ben dosbarth canol Caerdydd wrth ddarlunio Buchedd B'r brifddinas.

Yn y saithdegau penderfynodd diaconiaid yng Nghaerdydd wrthod dosbarthu'r *Dinesydd* oherwydd ei fod yn cynnwys straeon y Dyn Dwad. Ni wyddai'r diaconiaid ar y pryd ond roedd eu gweithred yn fwy effeithiol nag ymgyrch farchnata gref. Fe fyddai Dafydd yn gwerthfawrogi'r eironi, fod y deyrnged hon yn cael ei chyhoeddi yn *Y Dinesydd*.

Am 18 mlynedd roedd yn athro Cymraeg yng Ngholeg Illtud Sant, yn ymfalchio bod rhai o ddisgyblion y Chweched Dosbarth wedi mynd i Brifysgol Aberystwyth. Yn y cyfweliad



roedd y prifathro wedi dweud wrth Dafydd: 'Ar ddiwedd y dydd, Mr Huws, rwy i ishe athro ac rwyt ti ishe swydd.'


Fe drodd yn awdur llawn amser yn 1989. Roedd wedi treulio tri mis yn sgrifennu yn Sbaen oherwydd grant ac yn teimlo bod trobwynt yn ei yrfa wedi dod. Wedyn roedd ei sgriptiau i *Pobol y Cwm* yn raenus a'i iaith yn gyhyrog, y newid o'r lleddf i'r llon yn ei siwtio i'r dim. Roedd diddordeb mawr 'da fe mewn iaith. Pan o'n ni'n cael cinio fel dou neu dri theulu yn nhafarn Fagins yng Nglan-y-llyn fe fyddai Dafydd yn nodi rhyw ymadrodd neu gilydd yn ei ben a byddai'r ymadrodd yn neialog un o gymeriadau *Pobol y Cwm* mewn ychydig o fisoedd. Un enghraifft oedd y gymhariaeth 'drewi fel naw hewl'.

Yn 1990 fe gyhoeddodd *Un Peth di Priodi, Peth Arall di Byw* lle oedd yn feiddgar, yn arbrofol, yn whare gyda ffurf y nofel ei hun. Roedd hon yn llawn o amwyseiriau a *double entendres*. Doedd ein beirniaid llenyddol ddim yn gallu gwerthfawrogi ei waith.

Un o'i arwyr oedd y nofelydd o America, Philip Roth, a anelai at archwilio'n bryfoclyd werthoedd a moesau'r dosbarth canol yn y wlad honno ac oherwydd hynny roedd rabinau gorselog wedi beirniadu ei waith, *Goodbye Columbus*. Fel Roth roedd Dafydd wedi edrych ar y byd o'i gwmpas ac arno fe ei hunan ac wedi mynegi'r hyn a welodd yn ddewr, yn onest.

Fe fydda i'n cofio ffrind agos iawn, dyn direidus, egwyddorol, arloeswr yn ein byd llenyddol. Ma'r hiwmor sych wedi mynd ond bydd ei waith yn para.

Martin Huws







# Gwaith Meddygon Creigiau

(Parhad o dudalen 1)

Rydym ni'n ceisio cael cyn lleied â phosib o bobl yn dod dros drothwy'r drws i'r feddygfa, ond wrth gwrs, mae weithiau'n angenrheidiol gweld rhywun wyneb yn wyneb ac os felly, byddwn ni'n gofyn i chi eistedd yn y car tan fod y meddyg neu'r nyrs yn barod.

Mae pob presgripsiwn yn cael ei anfon yn syth at fferyllydd o'ch dewis chi.

Mae'n cyfarfod practis wythnosol nawr yn cael ei gynnal dros Zoom gyda phawb mewn ystafelloedd ar wahân, hyd yn oed pan fod nifer ohonon ni yn yr un adeilad, a hynny er mwyn osgoi treulio amser yn agos at ein gilydd - nid am fod un ohonom ni'n drewi, fel cafodd ei grybwyll gan rai!

Mae dysgu'r sgiliau newydd yma wedi golygu treulio tipyn o amser yn hyfforddi ar lein neu dros gyfarfodydd Zoom ac erbyn hyn mae'r sgiliau technegol wedi gwella llawer!

Mae Geraint yn tynnu at ddiwedd ei bedwaredd flwyddyn yn hyfforddi fel meddyg ac yna fel llawfeddyg erbyn hyn. Mae e hefyd wedi gweld sawl newid yn yr ysbyty. Er bod cymaint o'r apwyntiadau ag sy'n bosib yn cael eu cynnal dros y ffôn i osgoi cleifion yn gadael eu cartrefi lle nad oes angen iddynt, maen nhw'n dal i gynnig gwasanaeth brys llawn ac yn dal i drin cleifion yn gyson gydag ystod eang o gyflyrau.

Yn ogystal ag achosion brys mae'r ysbytai hefyd yn dal i gynnal llawfeddygaeth ar gyfer achosion difrifol sydd angen triniaeth gynnar megis canser.

Aeth Geraint i weithio yn yr Uned Gofal Dwys (Intensive Care Unit) am gyfnod i ofalu am gleifion a oedd yn dioddef yn wael o COVID-19. Erbyn hyn mae'r nifer o gleifion sydd angen gofal dwys wedi gostwng rhywfaint felly mae e wedi gallu dychwelyd at ei faes pennaf sef llawfeddygaeth gyffredinol, ond mae'n bosib y bydd gofyn iddo fynd yn ôl at yr Uned Gofal Dwys yn dibynnu ar sut fydd y niferoedd o gleifion yn newid dros y misoedd nesaf.

Er bod hi'n gyfnod anodd i'r gwasanaeth iechyd mae hi wedi bod yn fraint cael gofalu am y cleifion yn aml o dan amodau trist ac i geisio cefnogi'r teuluoedd gymaint ag sy'n bosib.

Un peth sy'n peri rhywfaint o ofid iddo yw'r gostyngiad sylweddol yn y nifer o gleifion byddai fel arfer yn dod gyda chyflyrau difrifol. Y neges mae pawb yn y gwasanaeth iechyd moyn ei chyfleu yw; er bod y ffordd ry'n ni'n gweithio wedi newid, rydym ni'n dal i fod ar agor ac yn awyddus i weld cleifion sydd angen gofal brys.

# CREIGIAU

*Gohebydd Lleol:*
*Nia Williams*
*colin.williams@talktalk.net*

**Enfys pwy?**
Yn y cyfnod cythryblus, gofidus yma mor braf wrth fynd am ein tro beunyddiol cael ein cyfarch gan sbloitsh o liw ar lun enfys mewn ffenest!

**I'r Arwyr Tawel! DIOLCH!**
**I Dr Angharad a Dr Tom! DIOLCH!**

Diolch enfawr i un teulu o Cardiff Road, Creigiau.

Mae Angharad Bevan yn feddyg teulu yng Nghaerffili a'i gŵr Tom Holmes yn ddoctor yn adran gofal dwys Ysbyty Athrofaol Caerdydd.

Mae'r ddau wedi bod yn gweithio pob awr o'r dydd a'r nos ar shifftiau hir, amrywiol i ofalu am bobl sâl

Mae Nia wedi bod yn mynychu hwb o fewn Ysgol Plasmawr a Macsen mewn ysgol gynradd yn y Tyllcoed - a hynny dros wyliau'r pasg hyd yn oed.!!! Arwyr.

**T.J.**





**Cwpan Criced y Byd**
**Cape Town 2020**
**Tîm Cymru (dros 50)**

Ddydd Sadwrn, y 7fed o Fawrth, ar ôl 6 mis o chwilio am noddwyr ac ymarfer, daeth yn amser i Martin Powell a'r sgwad o 21 o chwaraewyr a dyfarnwyr, hedfan o faes awyr Caerdydd i Dde Affrica i gynrychioli Cymru yng Nghwpan Criced y Byd. Dyma'r ail dro i Gwpan y Byd gael ei drefnu ar gyfer timoedd dros 50 oed. Meddylfryd y gystadleuaeth yw annog chwaraewyr aeddfetach (!) i barhau i chwarae yn gystadleuol, i gadw yn actif ac i gael cyfle i gwrdd ag unigolion eraill o bob rhan o'r byd. Roedd yn anrhydedd enfawr i Martin gael ei ddewis ac roedd yn ddiolchgar iawn am bob cefnogaeth a gafodd, yn enwedig gan aelodau Clwb Criced Creigiau.

Wedi glanio yng Nghape Town cafodd y Cymry groeso heb ei ail. Roedd y lletygarwch yn adlewyrchiad o'r hyn oedd i ddod ac yn dangos De Affrica ar ei orau. Trefnwyd sesiynau ymarfer lle defnyddiwyd cyfleusterau ysgolion lleol a chafwyd Seremoni Agoriadol yng nghysgod Table Mountain lle derbyniodd y chwaraewyr gap am gynrychioli eu gwlad. Cafodd Martin y profiad o gyfarfod â llysgenhadon y gystadleuaeth, cyn enwogion criced De Affrica, ac yn eu plith Mike Procter, Graham Pollock ac Alan Donald.

Tra bo Martin yn Ne Affrica wrth gwrs, roedd naws ein bywydau ni yng Nghymru yn dra gwahanol. A ninnau ar y pryd yn paratoi at gyfnod o 'lockdown', nid oedd achosion o'r Coronafirws yn Ne Affrica .

Roedd y twrnament wedi ei drefnu i 2 grŵp o chwe thîm. Colli fu hanes Cymru yn y gêm gyntaf yn erbyn De Affrica - ac er na chafodd Martin gyfle i gyfrannu, roedd yn dipyn o brofiad gwylio enwogion De Affrica ar y wiced a'r maes. Daeth cyfle Martin yn y ddwy gêm nesaf. Enillodd Cymru yn erbyn Namibia, ond yna, cafwyd diweddglo dramatig i'r twrnament, gyda Chymru wedi llwyddo i chwarae hanner gêm yn unig yn erbyn Pacistan, penderfynodd y llywodraeth rwystro'r twrnament rhag parhau oherwydd y Corona! Dyna beth oedd siom ac ergyd i Martin a'r sgwad i gyd.

Roedd Corona wedi cyrraedd De Affrica a'r gamp nesaf oedd ceisio cyrraedd adref cyn i'r meysydd awyr gau! Aeth wythnos heibio cyn i'r sgwad fedru hedfan yn ôl, ac wedi pythefnos fythgofiadwy - am fwy nag un rheswm! - cyrhaeddodd pawb adref yn iach ac yn ddiogel.



Sgwad Cymru yn y seremoni agoriadol

**John Hughes - Waunwyllt**
Os am eitem i godi calon yn y dyddiau blin yma - ewch nôl i ymweld â rhaglen 'Heno' nos Fawrth y 14eg o Ebrill a cewch fwynhau cyfweliad Daf Wyn â John Hughes, fferyllydd wrth ei waith beunyddiol a garddwr llawn enaid. Mae popeth sy'n tyfu yn Waunwyllt yn dyst i hynny. Mwynhewch y daith a gewch o gwmpas yr ardd a'r addysg ddaw wrth wrando a gwylio. Llongyfarchiadau John ar gyfweliad hyfryd!

**Cân yr Ardd**

Nid craig sy' lond y Creigiau - yno gardd
Yn gerddi mewn blodau;
Ebe hon - 'Do, bu e'n hau
Ei gariad - fi yw'r gore!'.

Diolch i H.R.

**Anfonwn ein cofion at Gary Samuel (a Beth!)**
Reit ar ddechrau'r cyfnod 'lockdown', cafodd Gary Samuel druan anffawd. Anffawd cas barodd iddo gael ei blastro o'i ben i'w draed! Bron! Ond mae Gary'n llawn hwyliau ac yn gwella'n dda. Mae'r plastar mawr wedi diflannu ac wedi gwneud lle i'r brês. Dal ati i wella Gary bach - cadwch yn saff!

**Dymuniadau gorau i . . .**
. . . Hanna Davies, Tregarth fydd yn graddio eleni ac sy ar fin dechrau swydd newydd dros yr haf gyda GE Healthcare fydd yn creu'r cits i brofi am Covid 19. Pob un yn gwneud ei ran dros guro'r gelyn. Pob lwc, Hanna!

**Gadael y BBC**
Dymuniadau gorau i Rhian Haf Landon sy'n gadael y BBC i fynd i weithio'n llawrydd. Roedd Rhian yn cyflwyno'r tywydd a'r traffic yn aml ar Radio Cymru ac yn rhan o'r tîm oedd yn cyflwyno'r tywydd ar y teledu.



# Dathlu yng Nghreigiau

**Cyfarchion Pen-blwydd i . . .**
. . . Mia Willis oedd yn dair oed ar y pedwerydd o Ebrill!



Roedd William Thomas-Jones oedd yn un ar bymtheg ar Ebrill 17. Dim parti leni William - ond dylai un blwyddyn nesa fod yn un da!
. . . ac yn rhannu pen-blwydd gyda William roedd Luned Ellis! Roedd Luned yn dair oed ar yr un diwrnod! Ac fe gafodd hi barti gwisg ffansi yn y tŷ!



. . .ar ddiwrnod ola mis Ebrill - roedd Loti Haf yn un oed! Mae Loti yn rhannu diwrnod pen-blwydd gyda'r Capt Tom Moore - fydd yn gant oed ar Ebrill 30!! Daeth Capt Tom yn arwr i Loti a'i chwaer Anni ac fe greon ni gerdyn pen-blwydd iddo a'i phostio ato!



**Dathlu Priodasau**
Mae'r Covid a'r gofid ddaeth yn ei sgîl wedi golygu na fu priodasau yn cael eu gweinyddu dros gyfnod y Pasg, felly braf y tro hwn yw cael hel atgofion a dymuno pen-blwydd priodas hapus a dedwydd i nifer o gyplau rhamantus Creigiau! Gan ddechrau gyda . . .
Wynfford a Meira Ellis-Owen. Fe'u priodwyd ar ddydd Llun y Pasg, 1973 yng Nghapel y Fron, capel sy bellach yn adfail.



**I Meira ar ein penblwydd priodas**

Mae oriau fel y moroedd - eiliadau
fel y blodau'n lluoedd;
Dyddiau? A oes dau nad oedd
wynfyd uwch byd a bydoedd?

Saith mlynedd ar hugain yn ôl - ar Ebrill y 10fed - priodwyd **Sarah ac Eurof Davies**. Chi ddim yn edrych ddigon hen, bois! Yng Nghapel Mair, Aberteifi y priodwyd y ddau. Teimlo rhyw gysylltiad gyda Sara gan taw ei thad-cu - y diweddar J.T. Owen oedd fy mhrif-athro yn Ysgol Uwchradd, Aberaeron. Arwr i bawb a'i adnabu. Pob bendith!



**Daniel a Nerys Hurford**
Yn Eglwys Santes Fair, Llanfair-ym-Muallt - lle mae mam Daniel yn aelod, ac yn y plwyf lle claddwyd ei dad - y priodwyd Daniel a Nerys ar ddiwrnod heulog, hyfryd - sef **Ebrill 21ain 2006**. Cynhaliwyd y wledd briodas yn



Petersone Court, ger Aberhonddu.
Sian Goodson, sy'n byw bellach ym Maes y Gollen, Creigiau oedd y forwyn briodas. Ffrindiau pennaf.
Medd Nerys - 'Yn 2000 cwrddon ni yn wreiddiol drwy'r gwaith, ond heb ddechrau mynd mas tan ganol 2003 (union yr un wythnos ag o'n i'n dechrau gweithio ar fy liwt fy hun) wedyn hanes yw'r gweddill. Dyn amyneddgar iawn whare teg iddo fe.
Lot o sbort a lot o brysurdeb yn y blynyddoedd ers 'ny ond Daniel Hurford oedd yr unig un teilwng!! Doedd priodi a chael teulu ddim ar fy rhestr flaenoriaethau a rhaid dweud, petawn i'n cael fy amser eto, **fe** fyddai'r dewis tro nesa hefyd.'

**Teleri a Glyn Jones**
Dathlu yn y tŷ fu hi eleni i **Teleri a Glyn**! Ddim hyd yn oed yn y Caffi hyfryd sy'n Hen Lyfrgell y Porth! Priodi yng Nghapel Baker Street, Aberysywyth, ar Fai yr 2il, 1998 oedd hanes y ddau, gyda'r Parch Alun Lenny yn gwasanaethu. A'r wledd briodas yn y Belle Vue ger y môr! Llongyfarchiadau eich dau!



Llongyfarchiadau mawr i Ann a Phil Angell! Fe'u priodwyd ar yr 28ain o Fai, 1994 yng Nghapel, Ffaldybreinin, Sir Gâr. Cynhaliwyd y wledd yng Ngwesty'r Falcondale, Llanbedr Pont Steffan. Llun hyfryd!



# EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

**Diolch**
Dwi am ddechrau'r golofn gyda nodyn personol. Dwi'n un o'r bobl sydd wedi hunan-ynysu ers dros fis erbyn hyn a charwn ddiolch o galon i'n cymdogion cymwynasgar am fod mor ofalus o Carey a minnau. Maent yn siopa bwyd, casglu tabledi o'r fferyllfa ac yn gwneud yn siŵr ein bod yn ymdopi â'r sefyllfa ryfedd hon. Rwy'n siŵr mod i'n siarad dros bawb yn y pentref gan fod yma ysbryd cymunedol cadarn yma. Mae'n gyfle i godi'r galon pob nos Iau pan ddaw pawb yn y stryd allan i ddiolch i weithwyr dewr y gwasanaeth Iechyd ac i gyd-ganu cân neu ddwy, gyda Huw M yn arwain trwy gyfeilio i ni ar ei gitâr.

**Efail Isaf ar y Newyddion S4C**
Daeth Mared Ifan o raglen Newyddion BBC Cymru i'r pentref nos Iau, Ebrill 16eg i sgwrsio gyda rhai o'r pentrefwyr. Gyda drws tafarn y pentref, Y Carpenters, wedi gorfod cau am y tro, fe dystiodd amryw o'r pentrefwyr am y gwaith gwych mae'r perchnogion Maria a Chris Davies yn cynnig i'r trigolion lleol. Maent wedi cysylltu â chigydd, pobydd, a siop ffrwythau a llysiau lleol ac yn cydlynu'r gwaith o sicrhau fod cyflenwad o fwyd i'r pentrefwyr yn ddyddiol. Bydd cyfle i archebu bwyd, a'i gasglu'r diwrnod canlynol o ddrws y dafarn, heb orfod mynd yn agos at archfarchnad i giwio. Roedd y siaradwyr ar y rhaglen i gyd yn canmol safon y bwyd ac yn ddiolchgar iawn i Chris a Maria. Cyfeiriodd amryw o'r siaradwyr at yr ysbryd cymunedol cryf oedd yn bodoli yn y pentref. Soniodd Heulyn am yr ymgyrch o gasglu bwyd i'r Banc Bwyd lleol, gyda chais un nos Sul ar i bob teulu adael tuniau bwyd y tu allan i'r tŷ i'w casglu gan wirfoddolwyr. Bu'r fenter yn llwyddiant ysgubol.

**Cydymdeimlo**



Cydymdeimlwn â theulu Dennis Oscar Evans a fu farw ar yr 2il o Fawrth yn 92 mlwydd oed. Bu'n byw yn y pentref am dros 40 mlynedd. Ef oedd 'Brenin y Pwdin Du' a bu'n rhedeg busnes y teulu ym marchnad Pontypridd am 40 mlynedd. Yna bu'n rhedeg Gwalia Stores yn Sain Ffagan am 6 mlynedd. Roedd yn chwarae golff yn y Creigiau, roedd yn gapten Clwb Bowls Pentyrch ac yn gefnogwr tîm rygbi Pentyrch. Dymuna ei wraig, Gloria, a'i blant, Susan a Gareth a'r teulu ddiolch i bawb am eu negeseuon caredig a'u cefnogaeth yn ystod y cyfnod 15 mis y bu Oscar yn sâl.

**Y Tabernacl**
**Colli Jane Eryl**
Syfrdanwyd aelodau'r Tabernacl fore Mawrth, Ebrill 21ain o glywed am farwolaeth annhymig Jane Eryl Jones yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Daeth Jane yn aelod yn y Tabernacl rhyw ddeuddeg mlynedd yn ôl, ac fe ymdaflodd ei hun i waith yr eglwys gyda brwdfrydedd, gan gymryd rhan yn yr Oedfaon â graen. Hi oedd yn gweinyddu'r seremonïau o fedyddio'r plant bach ac yn gwneud hynny bob amser ag urddas.

Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf i Gari a theulu Siân, ei merch, yn eu colled a'u galar.

**Brysiwch Wella**
Dymunwn yn dda i Carol Williams sydd heb fod yn rhy dda ei hiechyd yn ddiweddar. Dymuniadau gorau hefyd i Gary Samuel sydd wedi torri asgwrn yn ei goes. Dymuniadau gorau am wellhad buan, eich dau.

**Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol**
Mae aelodau'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol wedi bod yn brysur iawn wrth eu gwaith. Gan nad oedd yn bosibl cyfrannu bwyd a nwyddau i'r Banc Bwyd yn y ffordd arferol trefnwyd gofyn am gyfraniad ariannol gan yr aelodau. Mae'r Pwyllgor am ddiolch o galon am gyfraniadau hael yr aelodau i gefnogi Banc bwyd Taf Elái. Llwyddwyd i godi £1800. Mae trefnwyr y Banc Bwyd yn hynod ddiolchgar am y cyfraniad o'r Tabernacl.

Llwyddwyd hefyd i godi £2100 yn gynharach yn y flwyddyn i gefnogi'r trueiniaid a ddioddefodd mor wael yn y llifogydd yn ardal Pontypridd.

**Ymddeoliad Ioan**
Ddiwedd mis Mawrth ymddeolodd Ioan Rees fel Rheolwr Safle'r Tabernacl ar sail iechyd. Gan na fu Oedfaon yn ddiweddar yn y capel ni chafwyd cyfle i ddiolch iddo am ysgwyddo'r dyletswyddau mor gydwybodol, tawel a diffwdan. Diolch o galon i ti Ioan am dy holl waith.

Diolch hefyd i Caroline Rees a fu'n gefnogol iawn i Ioan yn ei waith drwy ddelio gyda phob ymholiad i hurio'r capel a'r ganolfan.

**Diolch**
Gan fod Ioan wedi ymddeol rhaid diolch i aelodau Pwyllgor y Meddiannau am gadw golwg cyson ar y capel, y Ganolfan a'r safle i gyd.

**"Dolen y Tab"**
Cynhyrchir cylch lythyr "Dolen y Tab" yn absenoldeb y daflen wythnosol a oedd ar gael yn yr Oedfaon ar y Sul. Cofiwch anfon unrhyw newyddion at Gwilym Huws erbyn dydd Iau i -
gehpengwern@yahoo.co.uk
neu 07710 237327.

**Pentrefwyr Efail Isaf gyda Mared Ifan ar Newyddion S4C**















Chris Davies perchennog y Carpenter's Arms

## Ysgol Creigiau

**Ysgol Hwb Peter Lea**

Ar Fawrth 18fed cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai pob ysgol yng Nghymru yn cau erbyn dydd Gwener, yr 20fed o Fawrth. Roedd y symudiad mewn ymateb i'r achosion o Goronafeirws. Felly caewyd yr ysgol ddydd Gwener, 20fed o Fawrth, i bawb ar wahân i blant gweithwyr allweddol. Am wythnos bu staff yr ysgol yn gofalu am blant gweithwyr allweddol ar safle Ysgol Creigiau. Yna symudon ni i Ysgol Hwb Danescourt am wythnos ond oherwydd niferoedd bu raid i ni symud i Ysgol Hwb arall sef Ysgol Hwb Peter Lea yn y Tyllgoed. Mae'r plant wedi ymdopi ac wedi ymgartrefu'n wych. Diolch i chi blantos rydym yn falch iawn ohonoch. Mae'r plant sy'n mynychu wedi bod yn cael llawer o brofiadau diddorol ac amrywiol. Diolch o galon i'r staff am weithio yn yr ysgol hwb a diolch arbennig i phob gweithiwr allweddol am ein cadw'n ddiogel.



**Cadw Mewn Cysylltiad**

Er mwyn cadw mewn cysylltiad gyda'n disgyblion ac i sicrhau eu bod yn gweld wynebau cyfarwydd aeth staff yr ysgol ati i greu 'fidio' arbennig i ddweud 'helo' wrth y plant a'u teuluoedd! Roedd ambell i aelod wedi cael mwy o hwyl na'r gweddill wrth greu eu clip fidio personol…nofio mewn twba poeth, canu yn y gawod, gwisgo fel iâr i enwi ond rhai esiamplau! Mae'n werth gweld gwaith celf creadigol y staff. Os hoffech weld y fidio ewch i gyfrif Trydar @CreigiauABC. Mae'n siŵr o roi gwên ar eich wynebau!







## PENTYRCH

*Gohebydd Lleol:*
*Marian Wynne*



**Marathon ar gefn beic**

Fel rhan o'r ymgyrch i godi arian ar gyfer elusennau mewn cyfnod anodd iawn mae nifer o bobl wedi derbyn her. Mae Huw Llywelyn Davies un o lysgenhadon elusen Ysbyty Velindre wedi ymateb i'r her 26. Nid 26 press up na 26 muned o weithio'n yr ardd - ond tynnu'r beic mâs o'r garej a cheisio gwneud 26 milltir!!! Tasg hawdd i rai - ond nid i hen ddyn 75 oed sy'n cario lot gormod o bwyse - meddai Huw. Llwyddodd i gwblhau'r daith ac mae'n apelio i bobl ei gefnogi drwy dudalen Her i Huw 26 ar Just Giving. Diolch am unrhyw gyfraniad. Codwyd dros £3000.




**Crwydro'r Pentref**

Braf oedd cael crwydro o gwmpas pentref Creigiau ychydig wythnosau nôl a dod ar draws nifer o negeseuon mewn sialc ar y palmentydd yn dymuno'n dda i'n gweithwyr allweddol ac yn cyfarch staff yr ysgol. Dyma enghraifft hyfryd.

## Ysgol Pont-Sion-Norton

**Hwyl Fawr!**

Hoffwn ni fel ysgol ddweud Hwyl Fawr i Mrs Rees sydd wedi cael swydd newydd yn Ysgol Iolo Morgannwg ers y Pasg. Pob dymuniad da a diolch am dy holl waith caled- bydd pawb yn gweld dy eisiau di.

**Helo!**

Helo i'n holl ddisgyblion sy'n dysgu o bell ar hyn o bryd! Mae'r athrawon i gyd yn edrych ymlaen at eich gweld cyn bo hir.

**Cwis Llyfrau**

Llongyfarchiadau i dîm Cwis Llyfrau blwyddyn 3 a 4 am ddod yn ail yn y rownd Sirol. Daliwch ati i ddarllen!!

**Hwb**

Diolch i bawb sydd wedi mynychu'r Hwb yn Heol-y-celyn yn ystod y cyfnod yma. Hyfryd oedd cael cyfle i ddal lan (2m i ffwrdd!) gyda rhai o'r staff a'r disgyblion. Diolch hefyd i Ffrindiau Pont-Siôn-Norton am y rhoddion caredig i'r Hwb- llawer o 'treats'!!!

**Damwain ar y Garth**

Bu rhaid galw hofrennydd a Thîm Achub Mynydd Adran Canol y Bannau i gynorthwyo dyn lleol a gwympodd ar y Garth ddechrau mis Ebrill.





# Ysgol Garth Olwg

**Creu Offer**
Mae'r Adran Ddylunio a Thechnoleg wedi bod yn brysur tu hwnt yn creu masgiau addas i Weithwyr y Gwasanaeth Iechyd.




**Blwyddyn 7 ac 8**
Mae blwyddyn 7 ac 8 wedi bod yn brysur iawn yn cwblhau gwaith dros y mis diwethaf. Mae disgyblion blwyddyn 7 wedi bod yn ffocysu ar Ifaciwis - gyda rhai yn gwisgo lan fel Ifaciwis hefyd!
Mae blwyddyn 8 wedi bod yn brysur yn creu logos a sloganau ar gyfer prosiect bach cyfryngau!
Hyfryd gweld cymaint o ymdrech gan ddisgyblion dros y cyfnod yma.













**Cwis llyfrau**
Llongyfarchiadau i dîm cwis llyfrau Blynyddoedd 3&4 am ddod yn 3ydd yn y Sir yn y rownd trafod yn ddiweddar.

**Fideos i'r gweithwyr allweddol**
Diolch i holl rieni'r ysgol isaf sydd wedi danfon, neu sydd wrthi'n creu fideo o'u plant yn diolch i weithwyr allweddol am eu holl waith yn ystod y cyfnod yma. Bydd y plant wrth eu boddau yn gweld eu ffrindiau ar Trydar yn fuan!

**Gweithgareddau dyddiol**
Er mwyn diddanu a chodi calonnau disgyblion, staff, rhieni a ffrindiau Ysgol Garth Olwg, mae'r ysgol wedi bod yn rhannu gwahanol bethau ar ein cyfrifon Trydar yn wythnosol. Bob dydd Llun mae'r adrannau Cymraeg a Cherddoriaeth yn rhannu Trac yr Wythnos, er mwyn i'r plant allu canu, meimio neu ddawnsio iddi. Yna, mae mwy o gyfle i ddawnsio bob dydd Mawrth, wrth i Miss Jones ddysgu Dawns yr Wythnos i ni! Mae hi'n amser stori bob dydd Mercher, ac rydym yn canolbwyntio ar les bob dydd Iau. Yna, rydyn ni'n dod â'r wythnos i ben trwy rannu jôcs i godi gwên ar ddydd Gwên-er!

**Blwyddyn 3 a 4**
Dyma collage bach o rai o'r plant yn nosbarth bl 3 a 4 wrthi'n gweithio ar waith yr wythnos. Eu tasg oedd i e-bostio'r llun at Mrs E. Thomas ar raglen Purple Mash wedyn. Wir wedi codi calon yr athrawon i weld eu disgyblion yn hapus ac yn saff wrthi'n gweithio!



# Bethlehem Gwaelod-y-garth

## Myfyrdod yng nghyfnod y "Gofid Mawr"

Mae'r cyfnod presennol o feudwyo yn dechrau llethu hyd yn oed y gorau ohonom erbyn hyn, ond fe barchwn y gorchymynion tra eu bod yn parhau mewn grym.

Mae'r orig honno o ymarfer corff y'i caniateir i ni'n ddyddiol, o'i defnyddio yn unol a'r rheolau, wedi bod o fendith serch hynny.

Mae cael cerdded llwybrau'r fro a llyncu'r awyr iach wedi dod yn ddyletswydd i'w drysori i nifer o drigolion y cylch.

Wrth reswm mae'r tywydd ffafriol wedi bod o'n plaid, ac hyd yma, bron yn ddi-dor, cafwyd heulwen gwanwynol i'n croesawu wrth i mi agor y llenni yn y bore, a hwnnw'n cadw cwmni i ni hyd ei fachludiad o gwmpas yr hanner awr wedi wyth yr hwyr.

(Yn wir, ynghanol yr holl Ofid, bron na wnaethom sylwi ar yr awr ychwanegol a gawsom o symyd bys y cloc ymlaen ar ddiwedd mis Mawrth!)

Mae sŵn yr adar yn un symffoni o nodau cymhleth, na fedrwn fod yn saff pa offeryn sy'n tiwnio, ond bod eu cydblethu yn well na cherddoriaeth y gorau o'n cyfansoddwyr!

Mae'r awyr uwch ein pen wedi bod mor las a phaent o balet arlunio rhai o artistiaid Argraffiadol ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac mae bon y cloddiau a'r dolydd wedi bod mor lliwgar a gardd Monet yn Giverny yn ei holl ogoniant.

Lliwiau gwyn, melyn, glas, pinc a phorffor yn amlygu eu hunain yn eu tro , gan swyno gyda'i prydferthwch, eu sirioldeb a'i dycnwch, wrth ymroi, fel pe baent mewn rhyw fath o gystadleuaeth, i ddal sylw'r "teithiwr talog" ar ei hynt 'nol i'w gaethiwed.



Un o'r blodau penodol sydd yn mynnu sylw ydi'r fioled – er mai blodyn bychan diniwed ydyw sy'n swatio'n agos at y llawr - mae'r gallu ganddo mewn clystyrau i ffurfio clytwaith hyfryd o liw trawiadol ymysg gwyrddni'r gwair o'i gwmpas.

Fe gofiwch bod fioled yn un o saith lliw'r enfys, ac mae 'na le amlwg yn cael ei roi i'r enfys y dyddiau yma gyda'r plant yn cael eu hannog i wneud lluniau ohono, a'u rhoi yn ffenestri'r tai fel arwydd o obaith am ddyddiau gwell i ddod.

Ond mae rheswm arall, mwy cynhenid, siwr o fod, pam bod y blodyn bychan yma yn ffefryn gennyf, a hynny o reidrwydd yn fy nhynnu 'nol i'm plentyndod yn Nyffryn Nantlle.

Ar y dresel dderw oedd yn ein 'stafell fyw ni yn nghartref y teulu 'roedd 'na blatiau a jygiau, pâr tegan o farchogion ar gefn ceffyl, cloc taro, ac yna dwy fâs fychan, ac arnynt, ar un ochr, yn y canol, ddarlun hyfryd o flodau'r fioled, wedi amgylchynu a phatrwm aur sgleiniog.

Roedd y dresal a'i chynnwys wedi dod o gartref fy nhad yn Nebo, a hynny pan rannwyd cynnwys y cartref hwnnw ar farwolaeth yr olaf o'r teulu.

Chefais i erioed adnabod Nain Nebo, fel y cyfeirid ati, oherwydd iddi farw rhyw dair blynedd cyn fy ngeni, ond 'roedd y dresal a'i chynnwys, a'r ddwy fâs yn benodol, yn pontio cenedlaethau coll ein teulu mewn ffordd arbennig iawn, ac yn cadw'r cof amdani'n fyw iawn.

Mae llawer un arall eisioes wedi son mewn englyn ac ysgrif am y sglein ar y pren (megis Dic Jones - "Dresel" - "*Mi a welais am eiliad – yn ei sglein .....nain fy nhad yn ei chwyro â chariad*"), a theimlad llaw ar y llestri o'u byseddu a'u hanwylo.

Yn ei thro, o glirio cartref fy mam a'm tad, daeth un o'r ddwy fâs i'm gofal innau erbyn hyn, ac mae edrych arni, a'r blodau fioled, yn codi yr un hen hiraeth arnaf innau am ddyddiau a fu.

Roedd fy nain yn hanu o Garndolbenmaen (pentref yn Eifionydd yn hytrach nag yn Nyffryn Nantlle!), sydd rhyw 6 milltir i'r gogledd o Borthmadog.



Fe gofiaf fynd hefo fy 'nhad i ymweld â'r olaf o'r teulu oedd yn dal i fyw yn y Garn, sef Anti Nani (chwaer fy nain), pan yn blentyn, ond rhaid dweud mai ychydig iawn o argraff wnaeth y pentref arnaf bryd hynny. Yn ôl Gruffudd Parry yn ei gyfrol "Crwydro Llŷn ac Eifionydd" pentref sy'n "*...gorwedd ynghanol ysgythredd hyll o greigiau*" ydio.

Er hyn, dyma fan geni Owen Griffith (Giraldus)[1832 – 1896] a Peter Jones [1775 – 1845] (Pedr Fardd – dim cyswllt teuluol hyd y gwn!).

Roedd y cyntaf yn weinidog gyda'r Bedyddwyr Cymraeg yng Nghymru a'r Unol Daleithiau, ac yn olygydd Y Wawr, papur Cymraeg y Bedyddwyr yn yr UDA.

Mae'r ail hwyrach yn fwy adnabyddus fel bardd a chyfansoddwr rhai o'n hemynau mawr (cynhwysir chwech ohonynt yng Nghaneuon Ffydd), yn eu mysg 'Un a gefais imi'n gyfaill; pwy fel Efe? [368], 'Cyn llunio'r byd, cyn lledu'r nefoedd wen' [527] a "Cysegrwn flaenffrwyth ddyddiau'n hoes" [C Ff 692]. Mae stryd o dai cyngor yn y pentref wedi ei enwi ar ei ôl sef Bro Pedr Fardd.



Ond yn ôl at y fâs – os cawn gip ar ei chefn mae'n gwbl ddi-addurn, heblaw am y geiriau canlynol arni - "*A Present from Garn*" !

Wn i ddim presant gan bwy, nac i sicrwydd, i bwy, y cyflwynwyd y fâs, a 'toes 'na ddim gwerth ariannol iddi hyd y gwn, ond yn amlwg 'roedd wedi, ac mae o hyd yn, cael ymgeledd cenedlaethau o'r teulu.

Cofrodd wrth ymadael â'r cartref, anrheg priodas, pwy wyr, ond mae un peth yn sicr, yn y cyfnod ansicr yma, y bydd mwy ohonom yn treulio gwyliau yn nes at adref o hyn allan, ac y bydd cofroddion o bentrefi a threfi bychan Cymru yn dod yn ôl i ffasiwn cyn hir!

Cadwch yn saff bawb!

---



Gair bach Bethlehem

Gwaelod-y-garth

Yn ysu am eich gweld!

- Casgliad o gyfraniadau
  - Diddanwch
  - Myfyrdodau ac atgofion
  - Colofn farddol
  - Hen a Newydd

Diolch i chi am ymateb!

Blwyddyn ben i waered

"Amser i bob peth ..."

Faint o weithiau y'ni 'di dweud "Jiw!, ma' amser yn hedfan", neu "i ble'r aeth yr amser?", "sdim amser i wneud dim" a "sdim digon o oriau mewn dydd!" Wel, alla'i ddim dychmygu y byddwn ni'n dweud yr un o'r rheini am sbell! Ond, tybed, tybed nad oes yng nghanol y dyddiau rhyfedd yma – gyfle. Cyfle i werthfawrogi amser, cyfle i arafu, i dawelu ac i, ie, i fwynhau'r llonyddwch. Nawr, dwi'n gwybod yn dda bod 'na rai yn ein plith sy' ynghlwm wrth y Gwasanaeth Iechyd yn gweddio i'r amser yma fynd heibio cyn gloied a phosib, a dwi'n siwr ein bod ni fel cynulleidfa'n dymuno nerth a bendith iddyn nhw wrth eu gwaith, a "iechyd da"; yng ngwir ystyr y cyfarchiad, hyd oni welwn ni ddiwedd Cofid 19. Ond, i'r rhai ohonom ni sy'n ymysu, gwerthfawrogwn yr eiliadau/munudau/oriau tawel, efallai gawn ni gyfle i glywed neu i weld prydferthwch rhywbeth, neu rywun, o'r newydd. "Daw heddiw fyth yn ôl" medd Endaf Emlyn yn un o'i ganeuon, gwnawn y gorau felly o bob heddiw, nes daw yfory gwell.

Cadwch yn ddiogel,

Delwyn.

Dyma dudalen flaen wythnosolyn newydd sbon sy'n mynd at bob aelod y Methlehem, Gwaelod-y-garth. Fel rhan o'r ymdrech i'w cadw mewn cysylltiad â'i gilydd ac i ddarparu gwybodaeth, myfyrdodau ac ychydig ddiddanwch, mae Bethlehem wedi cychwyn dosbarthu cylchgrawn wythnosol "Gair bach Bethlehem" ar e-bost ac ar eu gwefan: http://bethlehem.cymru/

Yr aelodau eu hunain sy'n cyfrannu – a gobaith y golygydd, Ifan Roberts, ydy y daw cyfraniad o bob aelwyd, boed nhw'n atgofion a phrofiadau, hen luniau, myfyrdodau neu negeseuon o obaith mewn cyfnod digon lletchwith. Roedd chwe thudalen i'r rhifyn cyntaf, ond chwyddodd yr ail rifyn yn ddeg tudalen! Bydd maint pob rhifyn yn dibynnu ar ddyfeisgarwch yr aelodau, nawr bod gan rai fwy o oriau ar eu dwylo.

# Curo'r Corona'n Coginio




**Eluned Davies-Scott**

Roedd rhaid paratoi ar gyfer sgwrs gyda Shan Cothi yn ddiweddar ac rwy'n rhannu gyda chi fy nodiadau ar gyfer rhaglen Bore Cothi gan nad oedd amser i ddefnyddio popeth oeddwn wedi baratoi.

I mi mae coginio bob amser yn ffordd o ymlacio, o ddianc o'r presennol ac hefyd yn help i ddatrus problemau. Yn sicr yn ddiweddar rydym yn gweld mwy a mwy yn troi at goginio fel rhywbeth i wneud yn hamddenol nawr mae mwy o amser yn cael ei dreulio adref. Mae tudalen gewplyfr MYW Curo'r Corona'n Coginio yn aruthrol o lwyddianus gyda cyfraniadau gan bob oedran a phawb wrth eu boddau – a dim ots am olwg y bwyd os yw'n blasu'n dda! Mae syniadau gwych , engrheifftiau di-ri o amrywiaeth fawr o fara, cacennau, pwdinau, bisgedi a bwydydd y Pasg wedi cael eu postio gyda rhai yn gafael mewn hen lyfrau rysetiau a rysteiau mam neu nain. Dim ryfedd fod prinder o flawd yn y siopau.

Dwi newydd ail ymwled a nofel Kate Roberts, *Traed Mewn Cyffion* ac yn hoff iawn o'r rhagair yn cyhoeddiad diweddaraf o'r nofel sydd â rhagair gan Angharad Tomos sy'n cychwyn gan ddweud….

*Bob tro y byddaf yn darllen Traed Mewn Cyffion, byddaf eisiau bwyta. Nid crefu yr wyf ar y cyfryw, ond yn hytrach yn dyheu am fwynhau'r seremoni o fwyta. Rhwng cloriau'r nofel …caiff ein synhwyrau eu hudo gan jam a theisien, te wedi'i dywallt o debot, crempogau wedi'u mwydo mewyn menyn, teisen lus, cig moch wedi'i ffrio, tatws o'r poptу , lobscows neu fara menyn a chaws.*
*Bwyd syml ydyw,i'w fwyta gyda theulu a ffrindiau.*

Er nad yw'n bosibl rhannu a mwynhau bwyd gyda ffrindiau ar hyn o bryd, mae gennym amser nawr i fwynhau paratoi ac eistedd i lawr gyda'n gilydd wrth y bwrdd i rannu'r yr hyn sydd wedi'i baratoi a choginio. Mae amrywiaeth o engrheifftiau ar dudalen Gweplyfr MYW yn dangos bwydydd wedi eu gweini gyda gofal a steil - hyd yn oed engrheifftiau o wneud te mewn tebot yn lle gweini te tramp a gyda 'sponges' siocled a Fictoria, pice bach, scons, bara brith, cacennau pili-pala, cacen grwst lemwn – te prynhawn yn go iawn yn ail gyfodi. Mae pwdianu hen ffasiwn yn cael eu paratoi fel 'jam roly poly' a fflan merginue lemwn a hyd yn oed offer o gefn y cwpwrdd yn cael ail fywyd fel y bric coginio cyw iar a'r siapiau gwneud cyrn hufen.

Mae llawer o engrheifftiau o greadigrwydd a dychymyg i'w weld. Roeddwn yn hoff iawn o clip fideo diweddar ar Gweplyfr lle roed rhieni wedi troi ey ystafell fwyta yn 'dŷ bwyta' ar gyfer eu dau fab ifanc oedd yn ysu am fynd allan am bryd o fwyd; mam oedd y gweinyddes a dad oedd y cogydd.

Ar ôl tystiolaeth o baratoi amrywiaeth o ddanteithion uchel mewn siwgr a brasder ar gyfer y Pasg mae mwy o bwyslais yn cael ei roi erbyn hyn ar fod yn greadigol wrth baratoi bwydydd mwy iachus. Yn sicr mae defnydd yn cael ei wneud o gynnyrch lleol a'r rhai sy'n cyhwyn ymddangos yn yr ardd gyda rhiwbob yn boblogaidd iawn ar hyn o bryd. Hefyd mae rhai yn arbrofi gyda cynyrch gwahanol i'r arfer fel dail dalan poethion a dail a blodau garlleg gwyllt a chawn amwrywaieth o Fake-aways!

Weithiau fe all fod yn broblem beth i baratoi sy'n wahanol neu sy'n defnyddio beth sydd gennym yn ein cypyrddau.

Gan fy mod i yn trio peidio mynd i siopa mwy nag sydd angen ac wedi gallu osgoi archfarchnadoedd am dros fis rwy'n ffodus iawn fod siop gwastraff sero wedi agor yn yr ardal ac yn cynnig amrywiaith dda o lysiau a chynhwysion sych. Gan fod y bocs o lysiau wythnosol yn amrywio mae weithiau yn rhoi her i mi o beth allai wneud gyda tatws, tatws melys, bresych, cennin a pwmpen/sgwash.

Mae cael amrywiaeth o sbeisys yn y cwpwrdd yn help mawr i gyfoethogi ac amrywio y llysiau yma ac rwyf hefyd wedi bod wrthi yn defnyddio rhai cynhwysion sydd wedi bod yn y cwpwrdd ers sbel – dwi'n siwr fod gan bawb rai tebyg yn cuddio yn rhwyle yn ngefn y cwpwrdd.

Dyma'r rhai dwi wedi bod yn defnyddio:

**Lentils Puy** – wedi eu berwi gall eu cyfuno gyda nionyn coch, garlleg, teim sych neu ffres a'r stoc neu ychydig o win coch neu tomatos tun i weni gyda selsig (ryseit da gan Delia Smith) neu ychwanegu at pei y bugail llysieuol; hefyd gyda eog mewn salad gyda ffa gwyrdd, wyau wedi'u berwi, tomatos a dressin a rocet. Maen't yn dda gyda moron wedi'u rhostio, feta, hadau ciwmin, nionyn coch a mintys.

Mae **Lentils coch** hefyd yn y cwpwrdd ers oes – mae nhw'n dda mewn cawl gyda moron, gallwch eu gwneud yn ragu i fynd gyda pasta neu eu gwneud yn Dhal a'u gweini gyda taten felys, neu amrywiaeth o lysiau mewn Masala Llysiau sy'n gallu defnyddio unrhyw lysiau dros ben a'i weini gyda bara gwastad (dwi wedi paratoi y ryseit yma, a sawl un arall, ar gyfer tudalen Gweplyfr Menter Iaith Caerffili).

Peth arall sy'n dda gyda pasta yw **garlleg du** (eto yn fy nghwpwdd ers sbel) gyda shallots, gwin gwyn, menyn ac olew gyda cyw iar wedi rhostio a sbigolgys. Gall hefyd fod yn brif flas i risotto gyda madarch porcinni, nionyn, stoc a parmesan. Mae madarch sych (porcinni) yn ardderchog ar gyfer ychwanegu blas safori i unrhyw fwyd sawrus.

A beth am y **tun o tiwna** (cefais lond bol ohono mewn taten pob ac gyda pasta pan oeddwn yn gweithio) Beth am drio ei ddefnyddio gyda capers, tomatos, zest lemwn a mascarpone gyda pasta. Hefyd gyda orzo, chili, tomatos a garlleg – rhwy fath o risotto. Hefyd mewn wraps gyda afocado a dressin o fiengar seidr, pwdwr mwstard a capers gyda tomatos bach.

Gall pesto fod yn rhwybeth sydd yn cael ei agor a yna yn mynd 'ar goll' yn yr oergell. Mae'n dda gyda nionyn coch, ffa cannellini a dail basil a lemwn ar datws melys ac yn gwneud saig pasta ardderchog gyd ychydig nionyn, garlleg ac yna ei weini gyda briwsion bara gwyn wedi'u cymysgu gyda ychydig o olew olewydd, garlleg, cnau pin a caws Parmesan wedi ei gratio a'u tostio mewn ffwrn boeth am 10 munud. Mae pesto hefyd yn dda mewn salad gyda tatws Newydd, pesto, tomatos bach, ffa gwyrdd a chydig o ddail sbigoglys. Hefyd gyda lentils puy a pupurau coch mewn olew (mewn jar) a wyau wedi eu berwi.

Os am wneud pesto eich hunan ewch ati i gasglu garlleg gwyllt. Gall garlleg gwyllt hefyd gael ei ddefnyddio mewn risotto – cefais ei brofi gyntaf mewn gwers goginio gyda'r enwg Franco Taruschio (cyn berchennog y Walnut Tree)

Gyda **cnau** sydd angen eu defnyddio gallwch eu rhostio, rhoi mewn cwscws, flapkacks, neu eu defnyddio fel toppings i myffins a crymbl. Mae dukka yn amlbwrpas,cymysgedd yw hwn o gnau a hadau fel hadau ffenel, nigella, sesame, blodau haul, seleri, ciwmin sy'n cael eu tostio mewn padell yna eu malu ychydig (dim rhy fân) gyda ychydig o halen. Mae'r cymysgedd yn cadw'n dda mewn jar ac yn flasus gyda bara ffres a olew olweydd, fel topping i bysgod gwyn wedi'u rhostio, gyda llysiau wed'u rhostio, gyda cawl, wyau, hummus a baba ganoush - (Wylys / Aubergine wedi rhostio a'u malu gyda sudd lemwn, paprika, tahini, persli, garlleg a olew olweydd) ac ar salad.

Dwi'n siwr bod nifer fawr ohonom a llyfrau rysetiau ar ein silffoedd nad ydynt yn agor yn aml – dyma gyfle i bori drostynt unwaith eto ac efallai dod ar draws hen ffefrynnau neu rhwybeth gwahanol i roi tro arno. Beth am rannu eich ffefrynnau yn rhifyn mis nesaf?

# LLANTRISANT GROESFAEN MEISGYN

Gohebydd y mis: Rhiannon Price

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i deulu Jane Eryl o Feisgyn, a fu farw canol mis Ebrill. Bydd colled fawr ar ei hôl ac rydym yn meddwl am ei gŵr Gareth, ei merch Siân a'i gŵr, ac am Geraint, yr ŵyr bach a oedd yn bwysig iawn ym mywyd ei nain a hithau yn ei ddysgu i adrodd.

Trist oedd clywed y newyddion bod mam Gwyndaf Lewis, a fu gynt yn rhedeg aelwyd yr Urdd yn Llantrisant, wedi marw yn ddiweddar. Roedd Undeg Lewis yn flaengar yn ei chymuned yn Sir Benfro a bu Gwyndaf yn weithgar yn yr ardal hon am gyfnod tan yn ddiweddar fel swyddog i'r Urdd a Menter Rhondda Cynon Taf. Bydd nifer yn cofio Gwyndaf yn rhedeg aelwyd yn Nhonysguboriau, a'n ymweld ac ysbrydoli disgyblion ysgolion. Rydym yn estyn ein cydymdeimlad ato a'r teulu.

**Talebau Dos y We**
Mae criw bach o'r rhai sy'n derbyn Talebau y cynllun Tesco ar gyfer codi arian i Fenter Rhondda Cynon Taf, wedi cychwyn treialu Talebau sydd yn cael eu hanfon i'w ffonau symudol dros e-bost. Bu'r cyfnod cloi lawr yn gyfle i dreialu'r dull newydd gan nad oedd modd derbyn talebau cerdyn. Y gobaith yw y bydd hyn yn arwain at ffurf hwylusach i rai dderbyn y Talebau.

**Croeso Adref**
Croeso nôl o Awstralia i Meurig White. Aeth yno ym mis Hydref. Cyrhaeddodd nôl yng nghanol y locdown a bu'n hunan ynysu am bedwar diwrnod ar ddeg. Roedd wedi bwriadu treulio o leiaf blwyddyn yn gweithio a theithio yn Awstralia ond gyda gwaharddiadau teithio yno penderfynodd ddod adref.

## Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant




**Cau'r ysgol dros dro**
Gyda theimladau cymysg iawn caewyd clwydi'r ysgol dros dro ar Fawrth 20fed eleni cyn agor eto ar y dydd Llun i dderbyn plant gweithwyr allweddol. Erbyn hyn, mae unrhyw blant sydd angen gofal yn mynychu Hwb Llanhari, gyda staff ysgolion yr ardal yn gofalu amdanynt. Diolch o galon i bawb sydd wedu gallu cynnig eu gwasanaethau i sicrhau bo rhieni'r plant yma yn gallu parhau â'u swyddi allweddol, yn ogystal â gofalu am blant bregus.

**Dysgu o bell**
Serch hynny, mae'r dysgu ac addysgu yn parhau ond mewn ffordd newydd a gwahanol i'r rhan fwyaf ohonom gyda dysgu o bell yn digwydd mewn cartrefi ledled y byd. Diolch i holl blant a rhieni yr ysgol sydd wedi gweithio'n galed iawn i gwblhau tasgau a'u hanfon atom. Rydyn ni wedi derbyn llu o luniau, fideos a negeseuon ers Mawrth 23ain ac mae'r staff yn gwerthfawrogi'r holl eiriau caredig sydd wedi ein cyrraedd dros ebyst a Thrydar.



**Codi arian**
Mae nifer o blant wedi bod yn brysur yn cyflawni gweithgareddau eraill hefyd tra'n aros gartref ac un o'r rheini yw Henry o Ddosbarth 3 sydd wedi bod yn rhedeg 2.6 milltir bob dydd am 10 diwrnod er mwyn codi arian ar gyfer yr elusen 2 Wish Upon a Star er cof am ei gefnder. Dyma gamp a hanner i blentyn pum mlwydd oed! Mae Henry wedi ymddangos ar raglen BBC Breakfast, ar Wales Online a nifer o wefannau newyddion eraill ac mae pobl yr ardal wedi ei gefnogi drwy glapio wrth iddo redeg bob tro. Cafodd ymweliad gan Heddlu De Cymru hyd yn oed pan gyflawnodd y 26 milltir ar ddydd Sul Ebrill 26ain. Da iawn Henry, rydyn ni gyd yn falch iawn ohonot ti!

**Sêr y dyfodol**
Rydyn ni wedi mwynhau gweld fideos o blant yn cyflawni campau eraill hefyd dros yr wythnosau diwethaf. Mae nifer o blant yr Adran Iau wedi troi'n newyddiadurwyr ac wedi bod yn recordio bwletinau newyddion o'u cartrefi. Diddorol iawn! A diolch hefyd i Gwydion o Ddosbarth 9 am ein helpu i goginio drwy rannu ryseitiau ar YouTube gan ddangos i ni cam wrth gam sut i greu prydau bwyd iachus. Mae'r fideos ar dudalen Trydar yr ysgol.



Plant o wahanol ysgolion Cynradd Cymraeg a Saesneg yr ardal a fu'n rhan o'r dawnsio yn un o seremoniau Eisteddfod yr Urdd Taf-Elái 1991.
Sawl un o'r rhain y'ch chi'n adnabod?
Derbyniwyd y llun oddi wrth Mrs Daddell ac mae hi'n awyddus i glywed am unrhyw un sydd yn y llun. Cysylltwch â Rhiannon Price neu ebostiwch pentyrch@tafelai.com gyda unrhyw wybodaeth.



# PONTYPRIDD

*Gohebydd Lleol:*
*Jayne Rees*

**Merched y Wawr**
Gan na fydd y gangen yn cwrdd bellach tan fis Medi( gobeithio!) mae'r aelodau wedi bod yn brysur yn cadw mewn cysylltiad drwy grwp What's App. Diolch i bawb am eu fideos doniol, cwis ac ambell neges feddylgar. Mae enfysau'r aelodau i'w gweld yn y ffenestri o gwmpas yr ardal i ddangos eu cefnogaeth i GIG.




**Dathlu**
Llongyfarchiadau i Cerys a Stephen Webber, Coed y Brenin, Maesycoed wrth iddynt ddathlu eu priodas arian ym mis Ebrill.

**Clwb Llyfrau**
Dim esgus i beidio darllen ar hyn o bryd! Beth am ddechre ar y gyfrol 'na sy wedi bod ar y silff ers sbel ac rydych wedi addo ei darllen rywbryd?

Siom i nifer o ddarllenwyr yng Nghymru ym mis Awst fydd peidio cael gafael ar waith buddugwyr gwobr Daniel Owen a'r Fedal Lenyddiaeth.

Edrychwn ymlaen at agoriad swyddogol llyfrgell newydd Pontypridd a'i stoc helaeth o gyfrolau Cymraeg.

**Clwb y Bont**
Diolch i bawb am eu cefnogaeth dros y misoedd diwethaf. Rhaid aros am gyfnod eto cyn dechrau ar y gwaith o adfer y difrod gwnaethpwyd gan y llifogydd ddechre'r flwyddyn. Mae'r pwyllgor yn gwerthfawrogi'r holl gyfraniadau i'r Gronfa Apêl.

Chwilio am rywbeth i'w wneud bob nos Fawrth?

Mae Marc Real yn cynnal cwis dwyieithog am 8 o'r gloch ar dudalen Facebook Clwb y Bont. Mae nifer yn ymuno yn yr hwyl yn fyw a nifer yn dilyn y cwis ar ôl y darlleniad. Diolch Marc a dal ati!

**Côr- Ona**
Mae'r tad a mab Gareth a Huw Blainey wedi bod yn dangos eu doniau cerddorol ar y safle newydd yn ystod yr amser cythryblus yma. Gwrandewch ar fersiwn Gareth o 'Ar lan y môr' a Huw ar y piano accordion yn cyflwyno'r clasuron 'Y Cwm' a 'Ti a dy ddoniau'. Gwych bois!



**Cadw'n Heini**
Mae Mike Ebbsworth wedi bod yn brysur yn cynnal ei wersi Pilates gan ddefnyddio cyfrwng Zoom a hefyd wedi cael slot cyson yn arddangos Pilates ar 'Pnawn Da.'
Os hoffech ymuno a'r gwersi cysylltwch â Mike mike.ebbsworth@gmail.com

**Cartref Newydd**
Fe ddaeth diwedd cyfnod i Lyfrgell Pontypridd wrth iddynt adel ei safle presennol a symud i adeilad Llys Cadwyn. Yn anffodus o achos yr amgylchiadau nid yw'r llyfrgell wedi agor eto. Siomedig iawn, wrth gerdded heibio, oedd sylwi nad oes dim un llyfr Cymraeg yn yr arddangosfa o lyfrau plant yn y ffenestri.

**Camp Ardderchog**
Llongyfarchiadau i ŵyr Dafydd Idris, Henry wrth gyflawni marathon dros gyfnod o 10 diwrnod. Mae Henry sy'n 5 oed wedi casglu dros £11,000 yn barod i'r elusen blant '2 Wish upon a star'.Mae wedi ymddangos ar eitemau newyddion ar y teledu yn son am ei orchest. Gwych!

**Cantorion a gwladgarwyr**
Buoch chi mas yn canu 'Hen wlad fy nhadau'?

Fe ddaeth 11 o drigolion Graigwen i gwrdd ar Mayfield Road erbyn 8 o'r gloch ( gan adel digon o bellter rhyngddynt). Ffilmiwyd yr achlysur gan Alun Thomas ac fe ymddangosodd y clip ar newyddion BBC Wales y noson



honno a gwelwyd llun o'r criw ar Heno y noson ganlynol. Ymdrech dda gan Bethan, Gerwyn, Huw a Ffion Caffery, Menna Lewis, Bethan Ford, Alun Thomas, Siân Harkin, Siân a Mike Ebbsworth a Jayne Rees wrth ganu a chwifio eu baneri!!

**Sêr y Sgrin fach**
Braf iawn gweld rhai o gyn ddisgyblion Rhydfelen ar y teledu yn ddiweddar. Mae Kate Griffiths wedi ymddangos yn 'Rownd a Rownd' a Geraint Todd yng nghyfres newydd '35 Diwrnod'.

**Halen y ddaear**
Diolch o galon i Gwenllian Hughes a'i staff yng Nghartref Gofal Pontypridd ym Maesycoed wrth iddynt ymdopi dan yr amgylchiadau i roi gofal arbennig i'w preswylwyr. Gwelwyd Gwenllian yn siarad am ei phrofiadau ar Newyddion S4C.



**Siwrne Ryfedd**
Mae Margaret Francis wedi bod yn adrodd yr hanes am ei thaith i weld yr arbenigwr yn Yr Ysbyty Llygaid yn Llundain bythefnos yn ôl. Fel arfer ma Margaret yn mynd ar y trên ond tro yma gyrru wnaeth Dave a hi. Prin iawn oedd y drafnidiaeth ar yr M4 a phrinnach fyth oedd y drafnidiaeth yng nghanol Llunden. Atgof am byth.

**Llety Llanddarog**
Falle eich bod wedi clywed am yr Archentwr Tedi Lewis? Wel ma Tedi dal yng Nghymru ar ôl disgwyl hedfan nol i Batagonia bron 6 wythnos yn ôl. Roedd e wedi dod draw ar ysgoloriaeth i loywi ei Gymraeg yng Ngholeg Llanymddyfri. Mae e wedi cael croeso arbennig gan Eiry Miles a'r teulu yn Llanddarog wrth iddo aros am y cyfle i hedfan nôl i dalaith Chubut. Yno buodd e'n dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed!

# Twyll a Dichell yng Ngodre'r Garth

Mae'n bur debygol mai dyfodiad Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i Bontypridd ym 1973 oedd un o'r prif resymau am adfywiad a thwf y Gymraeg yn yr ardaloedd yma ddiwedd y ganrif ddiwethaf. Yn ystod y cyfnod roedd nifer o Gymry ifanc wedi ymsefydlu ym Mhontypridd a'r cylch. Gwelodd y cyfnod fwrlwm o weithgareddau Cymraeg yn yr ardal.

Yn eu plith sefydlwyd dosbarthiadau astudio llenyddiaeth Gymraeg dan arweiniad Dr Meredydd Evans (Merêd). Sesiynau difyr yn trafod beirdd yr ugeinfed ganrif a diwylliant Cymraeg yn ei amryfal agweddau. Awgrymwyd ar ddiwedd y sesiwn o ddosbarthiadau mai da o beth fyddai cynnal eisteddfod gadeiriol fel clo i waith y tymor. A hynny a wnaed. Cynhaliwyd eisteddfod gyntaf Godre'r Garth ym 1974 gyda Merêd ei hun a'i wraig Phyllis yn beirniadu'r canu gydag Islwyn Jones yn gyfrifol am y cynnyrch llenyddol. Cafwyd eisteddfod i'w chofio gyda'r uchafbwynt yn cyrraedd gyda chystadleuaeth y corau tua un o'r gloch y bore. Tri chôr oedd yn cystadlu: Pontypridd, Efail Isaf a Chantorion Creigiau. O drwch blewyn, Creigiau aeth â hi!

Yn dilyn yr eisteddfod, trafodwyd y syniad o uno corau Pontypridd ac Efail Isaf a rhoi cynnig ar gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Caerfyrddin ym 1974. A dyna a fu, fe ffurfiwyd Côr Godre'r Garth dan arweiniad Wil Morus Jones ac aeth y côr ymlaen at fuddugoliaeth nodedig. Ac fel maen nhw'n dweud –'hanes yw'r gweddill'!

Ond mae mwy i'r stori na hynny. Barnwyd na fyddai Eisteddfod Godre'r Garth yn gyflawn heb gael gorsedd. Prif symbylydd y syniad oedd Gwyn Griffiths - Gwynfor Dal yng ngorsedd. Gŵr a oedd wedi treulio oriau meithion yn ymchwilio i ddysgeidiaeth Iolo Morgannwg ar arferion derwyddol y Cymry. Trefnodd gyfarfod o'r dynion a oedd yn ymwneud â'r eisteddfod ac fe awgrymodd sefydlu gorsedd yn seiliedig ar waith Iolo Morgannwg gan bwysleisio'r angen am fabwysiadu arferion gwahanol i'r rheini oedd i'w gweld yng Ngorsedd Beirdd yr Eisteddfod Genedlaethol. Gwyn oedd y Derwydd Gweinyddol cyntaf.

Ffrwyth llafur diflino Gwyn oedd yr hyn gafodd ei greu. Erbyn eisteddfod 1974, roedd Gorsedd Beirdd Mynydd y Garth yn ei lle gyda'r urddasol John Llanboidy, yn ei regalia rhwysgfawr, yn Dderwydd Gweinyddol a Gwynfor Dal yn Gofiadur. Yn ystod seremoni'r cadeirio y gwelwyd atgyfodi 'canu pastwn' a defod 'cyflwyno'r ŵy' sef 'gweithred symbolaidd yn cyfleu undod a pherffeithrwydd y cread, a thrwy hynny gelfyddyd'. Gareth (Gregory) o'r Nyth oedd Ceidwad yr Ŵy. Randal Glocsiwr Chwim oedd yn cyfarch y bardd gyda'i ddawns y glocsen unigryw. Y clarinet gwlad dan gyfeilyddiaeth Tomi Clarinet




Gorsedd Beirdd Mynydd y Garth

Gwlad oedd yn gwysio'r bardd i godi ar ei draed. Roedd y cyfan dan lygad barcud cyfreithiwr yr orsedd - Miles Gyfiawn ynghyd ag aelodau eraill, yn eu plith, Ceidwad y Pastynau - Elidir Beasley, Meistr y Gwisgoedd - Geraint Davies, Wil Berdonneg, Bobi Ffêr a Geraint Farfog.

Ond nid yn unig ar achlysur yr eisteddfod roedd y gorseddogion yn dod at ei gilydd. Roedd cyfarfodydd misol yn cael eu cynnal i drwytho'r aelodau yn nysgeidiaeth gorseddol Iolo a Dr William Price ac i ymgyfarwyddo â'r pedwar mesur ar hugain. Y cinio blynyddol oedd penllanw'r gweithgareddau hyn. Gwahoddwyd sawl ffigwr cenedlaethol o fri i annerch y gorseddogion yn eu tro a daeth y digymar Hywel Teifi i'w hannerch yn un o'r ciniawau hynny. Roedd Hywel wedi dotio at y fath weithgaredd gorseddol a'i eiriau wrth gloi ei araith oedd: "Jiawch bois byddai'r hen Iolo wedi bod yn blydi balch ohonoch chi a'ch gorsedd."!

**Ond ...** daeth tro ar fyd. Dros y blynyddoedd roedd aniddigrwydd wedi bod yn cyniwair ymysg rhengoedd rhai o wragedd a phartneriaid y gorseddogion. Roedden nhw'n teimlo'n gryf y dylai merched hefyd fod yn rhan o'r orsedd. Yn wir daeth cais swyddogol i sylw'r Derwydd Gweinyddol am weithredu polisi hawliau cyfartal. Ymateb cyntaf y Derwydd Gweinyddol a'r Cofiadur oedd na fyddai hynny'n gydnaws â dysgeidiaeth Iolo. Cyson fu ymbiliadau'r merched nes i'r Derwydd Gweinyddiol gydsynio i dderbyn dirprwyaeth ohonyn nhw i seremoni nesa'r orsedd ar yr amod eu bod wedi gwisgo'n briodol ar gyfer y cyfarfod. Ymddangosodd y ddirprwyaeth yn eu gynau gwynion yng nghefn y neuadd i'w croesawu gan y Derwydd Gweinyddol. Diolchodd i'r merched am eu cais ond ymddiheurodd gan ddweud na fyddai eu derbyn i'r orsedd yn gydnaws a dysgeidiath Iolo. Awgrymodd y dylen nhw ail- gyflwyno eu cais ymhen pymtheng mlynedd!

Roedd y merched wedi eu bychanu'n gyhoeddus ac yn wyllt gacwn â'r driniaeth roedden nhw wedi ei derbyn.

1978 – Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. Roedd gwynt yn hwyliau'r gorseddogion erbyn hynny, gymaint felly nes iddyn nhw benderfynu chwilio am gydnabyddiaeth cenedlaethol i'w gorsedd. Cyflwynwyd llythyr i sylw swyddogion yr eisteddfod am i Orsedd Beirdd Mynydd y Garth gael ei chydnabod yn swyddogol a chael cymryd rhan yn seremonïau'r Genedlaethol yn y brifddinas.

Cafwyd ymateb trwy lythyr swyddogol a anfonwyd gan W.J.Jones, Ysgrifennydd Pwyllgor Gwaith yr eisteddfod yn gwahodd dirprwyaeth o Orsedd Beirdd Mynydd y Garth i gyfarfod yng Ngholeg Addysg Cyncoed i drafod y mater. Anfonwyd cyfarwyddiadau manwl iddyn nhw ar sut i ddod o hyd i'r ystafell gyfarfod. Yn llawn brwdfrydedd cyrhaeddodd y tri y coleg mewn da bryd. Ond er mawr syndod iddyn nhw fe'u harweiniwyd gan y cyfarwyddiadau i dai bach y merched! Er mawr sioc iddyn nhw, yno roedd y cyfarfod i'w gynnal! Wedi eu cynddeiriogi ac yn synhwyro eu bod wedi eu twyllo aethon nhw yn ôl at eu car dim ond i weld poster ar y sgrîn-wynt a'r geiriau 'Dewch yn ôl mewn pymtheng mlynedd' arno !

Bu cryn gyhoeddusrwydd i'r stori – yn y *Western Mail, Sunday People* ac o bob papur *The Times*. Yn y *Western Mail* disgrifiodd John Llanboidy y digwyddiad fel "a hoax in bad taste." Yn y *Times* eglurodd Margaret Parry, un o'r rhai oedd gyfrifol am y twyll, pam roedd y merched wedi cymryd y fath gam, "The men claim that historically they cannot admit us because of a vision experienced by Iolo Morgannwg centuries ago which told him that women could not be admitted ... we believe it's bunkum and that their meetings are only an excuse for a drink-up. I know, I have seen them after a session!" Mewn ymateb yn yr un papur disgrifiodd Gareth o'r Nyth y twyll fel "female chauvinism of the worst kind"!

Gêm gyfartal oedd hi! Lwyddodd y merched ddim yn eu cais i ymuno â'r Orsedd a doedd dim cydnabyddiaeth i'r Orsedd gan yr Eisteddfod Genedlaethol chwaith!

A bu brawdgarwch a chwaergarwch!

Geraint Hughes

# Hanes Capel Taihirion

Mae Taihirion ar ochr y ffordd o Lantrisant i Gaerdydd rhwng Llanilltern a Rhydlafar ger fferm Tydu. Mae'n le anghysbell yng nghanol y wlad ac yno sefydlwyd y capel anghydffurfiol annibynnol cyntaf yn yr ardal.

Cawn atgofion am y capel gan y Parch Job Miles oedd yn enedigol o'r ardal a aeth yn Ysgrifennydd enwad yr Annibynwyr. Dyma grynodeb o'i sylwadau yn Y Tyst yn 1892 -

Tua 1760 ffurfiwyd capel yn Taihirion mewn ardal wledig. Roedd yn cwrdd mewn tŷ annedd yn gysylltiedig â'r ddau dŷ yn Taihirion. Derbyniodd y capel gefnogaeth ariannol Samuel Price, Y Parc, Llanilltern a fu farw yn 1777.

Gyda dim ond 12 o aelodau yn y capel yn 1784 penderfynwyd uno gyda Chapel Tabernacl yr Annibynwyr Llanharan a'u Gweinidog y Parch Noah Jones a fu farw yn 1814 yn 67 mlwydd oed.

Yn 1815 daeth y Parch David Jones yn weinidog yn Llanharan a Taihirion a chynyddodd y gynulleidfa a phenderfynwyd ehangu. Agorwyd capel newydd Taihirion ar 19 Mehefin 1822 ac ar brydles y tir enw'r capel oedd Philadelphia. Nid oedd yn gapel mawr oherwydd bod bwriad i sefydlu capeli eraill yn y cylch. Roedd yn gyfnod llewyrchus iawn a chynhaliwyd Ysgol Sabothol yn Soar, Pentyrch ar ffordd Efail Isaf hyd 1841.

Yn 1831 sefydlwyd Capel Bethlehem Gwaelod y Garth yng nghanol bwrlwm diwydiannol cwm Taf ac aeth Gweinidog Taihirion, Y Parch David Jones yno.

Yn 1834 daeth y Parch Benjamin Morgan yn weinidog i Taihirion ond gadawodd yn dilyn anghydfod a ffurfiodd gapel yn Llansanffraid ar Elái (Ebenezer).

Yna daeth y Parch David Davies yn weinidog ond bu rhaid i yntau adael wedi anghydfod (aeth yn weinidog i Bethlehem, Gwaelod y Garth yn dilyn marwolaeth y Parch David Jones.)



Capel Taihirion tua 1910

Yn 1840 galwyd y Parch Lemuel Smith i fod yn weinidog ar Taihirion a Bethlehem. Drwy ei anogaeth sefydlwyd yr achos yn Efail Isaf a dechreuwyd adeiladu capel yno ond bu farw yn 27 oed yn 1842 heb weld cwblhau ei gapel a agorwyd yn 1843.

Daeth y Parch David Davies yn ôl i wasanaethu Taihirion a Bethlehem tan 1848.

Yn 1851 daeth y Parch John Davies yn weinidog ar Taihirion a'r Tabernacl Efail Isaf ac yn 1858 agorwyd Bronllwyn, Pentyrch dan ei weinidogaeth. Roedd John Davies yn un o bedwar gweinidog o blwyf Llangyfelach ddaeth i weinidogaethu yn ardal Taihirion ac roedd yn byw yn Fferm Rhydlafar ac ar y Sul byddai'n cerdded i Efail Isaf ac yn ôl. Bu'n weinidog ar Taihirion tan 1892 gan barhau ym Mhentyrch ac Efail Isaf. Adnabuwyd fel John Taihiron a mabwysiadodd yr enw.

Cawn rhagor am y capel yn Llyfr Hanes yr Annibynwyr - Ar ôl i John Davies adael Taihirion dirywiodd y capel ond yn 1896 casglwyd £70 i adnewyddu'r adeilad. Erbyn hyn roedd y capel yn troi i'r Saesneg a daeth William Owen a fu'n genhadwr yn China yn weinidog am gyfnod byr ac roedd Alfred Beynon, diacon, yn bennaf gyfrifol am gynnal y capel o ddiwedd yr 1890'au. Roedd yn gweithio ar y rheilffordd a'i wraig yn cadw siop yn Llanilltern. Bu farw yn sydyn yn 1905.

Daeth W J George o Bontypridd i ofalu am y capel am gyfnod byr ac erbyn 1919 roedd yr aelodaeth yn 16.

Nid oes cofnod o ddyddiad cau'r capel - mwy na thebyg yn y 1930'au.

Yn Baner ac Amserau Cymru yn 1917 mae pwt am Ffermdy Tydu ger Taihiron. Y ffermwyr oedd Mr a Mrs Miles yn enedigol o Lanharan a Phencoed. Pan oedd Capel Taihirion yn Gymraeg, Tydu oedd llety'r pregethwyr yn rhad trwy'r blynyddoedd. Roedd y Parch John Taihiron Davies yn treulio llawer o oriau yn Tydu pan oedd yn gweinidogaethu yn Taihirion, Bronllwyn a'r Efail Isaf. Cafwyd ambell i awr ddedwydd yn sŵn y berdoneg a hen emynau Pantycelyn yn Tydu.



Muriau Capel Taihirion yn y coed yn 2020

Erbyn hyn mae Capel Taihiron yn adfail. Er bod y waliau yn sefyll o hyd maent wedi eu gorchfygu gan goed a drain. Mae'r hen dai wedi chwalu ond ambell wal o gerrig yn ymddangos.

Ceir rhagor o hanes Capel Taihirion yn yr 'History of Congregationalism in Cardiff', 1920. Mae Don Llewellyn wedi olrhain yr hanes yn y Garth Domain ac mae gwybodaeth ar wefan y Welldigger, David Pike, daibach-welldigger.blogspot.com.




Map 1888

## Wythnos Cymorth Cristnogol 10 – 16 Mai 2020

Prin fod diwrnod yn mynd heibio nad ydyw effeithiau'r argyfwng hinsawdd yn cael sylw ar y newyddion. Yma yng Nghymru, rydym wedi wynebu stormydd cryf, gyda llifogydd difrifol yn achosi difrod mawr i gartrefi a busnesau. Mewn gwlad fel Kenya, fodd bynnag, sychder yw'r broblem fawr, gyda phobl yn gorfod cerdded milltiroedd i chwilio am ddŵr fydd yn eu galluogi i dyfu cnydau i fwydo eu hunain.



Mae Wythnos Cymorth Cristnogol eleni yn canolbwyntio ar effaith yr argyfwng hinsawdd ar Kenya a'i phobl. Eleni bydd yr Wythnos yn edrych yn wahanol iawn i'r arferol oherwydd y Coronafirws. Nid yw'r Wythnos wedi ei chanslo, fodd bynnag. Mae'r gwaith yn parhau er y bydd yn wahanol iawn. Cawn glywed hanes Rose, sy'n wraig 67 oed ac yn gofalu am ei hwyrion. Mae'n gorfod cerdded chwe awr bob dydd i gasglu dŵr. Hebddo, ni all dyfu cnydau a pharatoi bwyd maethlon i'w theulu. Meddai, 'Mae'r sychder wedi bod yn ddifrifol. Rydym wedi cael tri mis hir heb law. Rydym yn dioddef.' Clywn hefyd gan Florence. Arferai hithau gerdded pellter maith ond ers i'w chymuned godi argae pridd yn ymyl ei phentref gyda help gan bartner Cymorth Cristnogol, mae ei bywyd hi a'i chymdogion wedi ei drawsnewid. Mae'r sychder lawn mor ddrwg, ond gyda'r argae mae posibl cronni dŵr ar gyfer y tymor sych.

Mae Wythnos Cymorth Cristnogol yn gyfle i godi arian i helpu mwy o gymunedau tebyg i un Florence – cymunedau sydd ar linell flaen yr ymdrech yn erbyn yr argyfwng hinsawdd. Er na fydd y cyfarfodydd arferol ymlaen yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol, bydd cyfleoedd gwahanol i gyfrannu tuag at y gwaith. Dyma gyfle arbennig i wneud rhywbeth dros y tlotaf yn ein byd - y bobl sy wedi cyfrannu lleiaf tuag at yr argyfwng, ond sydd er hynny'n gorfod wynebu'r effaith mwyaf. Am fwy o wybodaeth am yr Wythnos a'r newidiadau fydd iddi eleni, os gwelwch yn dda ewch i'n gwefan: https://www. christianaid.org.uk/

## Dysgu Cymraeg ar Facebook




Oherwydd fod y canolfannau dysgu Cymraeg wedi cau bu'n rhaid troi at y we i gynnal dosbarthiadau A bu Helen Prosser yn arloesi yn y maes. Erbyn hyn mae'r dosbarthiadau yn boblogaidd iawn ac yn ymestyn y Gymraeg tu hwnt i'r ffiniau blaenorol.

## Corona ers stalwm




Mae gan llawer atgofion am Corona, y diod ffrwythlon melys, o'r Porth. Roedd warws mawr ger ein tŷ ym Mhorthmadog yn ei ddosbarthu. Gwaith crefft Richard Jones o Ynysmaerdy yw'r cert arbennig yma. Roedd Richard Jones ymlith yr olaf o grefftwyr cert yr ardal, bu farw yn 1995.

## Ynysu Teuluoedd



Ar BBC Cymru Fyw cawsom hanes teuluoedd sydd yn cadw ar wahân oherwydd y pryderon diweddar. Ymhlith y teuluoedd roedd teulu Hannah o Donysguboriau. Mae tad a mam Hannah, Howard a Betsan Evans yn byw yn Y Sili ac yn cadw mewn cysylltiad â'u wyrion dros y we erbyn hyn.



Mae Howard a Betsan hefyd yn aelodau o Gôr Godre'r Garth ac yn mwynhau'r Zoom wythnosol a chwis y côr.

## Eisteddfod 1991

Oes gennych chi atgofion am Eisteddfod Taf Elái 1991? Bydd Garth yr Arth wrth ei fodd i glywed gennych.






## Diwrnod VE – agor capsiwl amser

Dwy daith - a 65 o flynyddoedd rhyngddynt. Y gyntaf tua 1943 i un o faestrefi Lerpwl i chwilio am berthynas nas gwelwyd er pan oedd yn faban. Yr ail yn 2008 i'r ochr arall i'r byd - i Sippy Downs ger Noosa ar y Sunshine Coast, i'r gogledd o Brisbane. Ond, mewn gwirionedd, gallem ddweud bod tair taith, oherwydd roedd hon yn daith hefyd i bentref bychan yng Nghymru yn y flwyddyn 1945 – i fod yn fanwl, 8 Mai 1945.

****************

Dwy wahanol iawn oedden nhw. Florence Ann yn saith ar hugain oed a newydd briodi. Bu'n sister gyfrifol yn ysbyty Broad Green, Lerpwl a gwelodd sawl erchyllter yn ystod blynyddoedd y rhyfel. Anghofiai hi fyth y blits ar y ddinas, ei het yn cael ei chwythu oddi ar ei phen mewn un cyrch wrth i fom ddisgyn yn y stryd nesa. Bu clwyfedigion Prydeinig ac Almaenig dan ei gofal, ac un Almaenwr ifanc deunaw oed mewn arswyd rhag cael ei hebrwng i'r theatr oherwydd yr hanesion a glywsai 'y byddai'r meddygon yn torri ei glustiau i ffwrdd o dan yr anaesthetig'. Gwnaeth geiriau cysurlon y sister ifanc o ddyffryn Ceiriog fymryn i leddfu'r ofn yn y llygaid glas. Onid oedd ganddi hithau frawd tua'r un oed yn lluoedd Prydain, Duw a ŵyr ymhle yn y dwyrain pell?

A'r llall? Roedd Sheila wyth mlynedd yn iau. Yn bedair ar bymtheg oed roedd hi'n llawn o asbri oedolyn ifanc a awchai am ei rhyddid wedi blynyddoedd llwm y rhyfel. Roedd wedi'i magu'n Saesnes, a'r fagwraeth honno'n un bur gysurus, a doedd prinderau blynyddoedd y rhyfel ddim wedi mennu llawer arni hi na'i theulu. Ond fu bywyd ddim yn fêl i gyd i'r ferch a gollodd ei mam yn naw mis oed ac a fagwyd gan deulu tad a ailbriododd. Bu ei nain yn dda iawn wrthi, ond doedd pethau ddim yr un fath pan ddaeth ei llysfam i'r cartref atynt. A doedd byw ym maestrefi Lerpwl yn y dyddiau hynny ddim heb ei wewyr chwaith, hyd yn oed yn llawn hyder ieuenctid. Ond roedd y rhyfel bellach ar ben, a phawb yn dathlu!

'Well, what are we going to do?' A thinc o anghredinedd yn y llais!

Cymraes o ddyffryn Ceiriog, merch i chwarelwr cyffredin, er ei fod yn fforman erbyn hynny yn y chwarel wenithfaen leol, a Saesnes o Crosby, o deulu cefnog dosbarth canol. Ond ym mis Mai 1945 roedd y ddwy mewn tŷ o'r enw Heulwen ym mhentref Glynceiriog, cartref gŵr gweddw o'r enw William Edwards, tad Florence. Nyrs oedd Sheila hithau erbyn hynny. Bu'n gwneud gwaith swyddfa ysgafn ers gadael yr ysgol, ond wedi cyrraedd deunaw oed, roedd yn rhaid iddi hithau, fel merched eraill o'r un oed, benderfynu pa un ai i ffatri arfau yr âi, ynteu i ymuno â byddin y tir, ynteu i nyrsio. Penderfynodd ddilyn ei chyfyrderes a mynd i nyrsio i ysbyty Broad Green.

Oherwydd dwy gyfyrderes oedd Sheila Yates a Florence Edwards. Bu mam Florence, Mary Edwards, farw chwe blynedd ynghynt yn hanner cant oed, ar ôl blynyddoedd o afiechyd yn dilyn beichiogrwydd, peth nid anghyffredin yn y blynyddoedd hynny cyn gwrthfiotigau na gofal mamolaeth digonol. Mary oedd yr hynaf o blant y Gilfach yn y Glyn. A bu'r Gilfach, neu Cefn Isa Cottages mewn blynyddoedd a fu, yn ganolbwynt i'r teulu ym mlynyddoedd plentyndod Florence, a Nain Gilfach, Ann Edwards, yn frenhines ar yr aelwyd honno. Ar wahân i'w phlant ei hun - Mary, Elizabeth, Edward a Deborah - magodd hefyd Hilda, merch ei brawd John. Roedd Dewyrth John, John Savage, wedi priodi gwraig weddw, Mrs Benyon, a chanddi blant eisoes. Mae'n amlwg na fu'r briodas yn un hapus, ac iddi chwalu yn fuan wedi geni plentyn iddynt, oherwydd at ei chwaer i'r Gilfach y daeth John â'r ferch fach i'w magu. Doedd dim rhyfedd bod Mary'n meddwl amdani'n fwy fel chwaer na chyfnither.

Tyfodd Hilda'n ferch ifanc brydweddol a medrus ac yn y Siop Newydd yn y Glyn dechreuodd ddysgu crefft fel gwniadwraig. Wedi cyfnod yno, mentrodd i Lerpwl a chael ei phrentisio yn un o siopau mawr y ddinas lle bu'n gweithio ar ffrogiau priodas drudfawr. Rhywsut tynnodd sylw Sais ifanc o deulu digon cefnog, Edgar Yates, a'i denodd i'w briodi, a chyn hir roedd yn edrych ymlaen at eni plentyn. Llongwr yn y llynges fasnachol oedd Edgar, tipyn o ddafad ddu yn ôl y sôn. Beth bynnag am hynny, mae'n siŵr bod cyfnodau pan fyddai Hilda'n dyheu am y gwmnïaeth a'r bwrlwm teuluol yr oedd wedi arfer â nhw yn y Glyn, yn enwedig pan fyddai Edgar ar fordaith. A digon naturiol oedd iddi ddod â Sheila fach i'r Glyn i'w dangos i'w thad ac i'r fodryb, 'Nain Gilfach' a oedd wedi ei magu hithau.

Yn ei hen gartref yn y Gilfach yr oedd Hilda, yn y flwyddyn 1925, ychydig fisoedd wedi geni ei phlentyn, pan drawyd hi'n wael yn sydyn gan lid yr ymennydd. Bu farw o fewn dyddiau, gan adael ei merch fach, Sheila yng ngofal John, ei thad, a'i chwaer yntau, Nain Gilfach, am y tro. Ac yno y cawsai aros petaen nhw wedi cael eu dymuniad. Ond, yn ddigon naturiol, roedd ei thad Edgar am fynd â'r un fach yn ôl i Crosby lle'r oedd ei fam yn barod i'w magu.



Hilda Yates (gynt Savage) gyda'i geneth fach, Sheila Hilda Yates, tua 1925

Anodd dychmygu galar John pan adawyd ef yn amddifad o'i ferch a'i wyres mor ddisymwth o greulon. Mae'n debyg na fu byw'n hir iawn wedyn. Wrth ddringo'r allt i fyny at y Gilfach o gapel Seion rhyw nos Sul bu'n rhaid iddo aros wrth ffynnon i orffwys a chael ei wynt. Cafodd drawiad ar ei galon a bu farw.

Roedd y fagwraeth yn Crosby yn wahanol iawn i'r un y byddai Sheila wedi'i chael yn y Glyn, pe cawsai aros. Yn sicr roedd yn fagwraeth fwy cysurus yn faterol. Ac nid oedd yn brin o gariad chwaith, yn sicr tra bu ei nain fyw. Ond wrth i'r nain heneiddio, ac yn enwedig wedi i'w thad ailbriodi, teimlodd y ferch ifanc frath unigrwydd. Ac roedd y Glyn a theulu ei mam yn bell ac yn mynd yn gwbl ddieithr.

Ond nid oedd teulu'r Glyn wedi anghofio amdani. Sawl gwaith y clywodd Florence ei mam, Mary yn holi, 'Tybed sut mae geneth fach Hilda?', hyd yn oed, neu yn enwedig, yn ei gwaeledd. Erbyn hynny roedd Nain Gilfach wedi marw, ac yn rhy fuan o lawer bu farw Mary hithau, yn hanner cant oed, heb gael gwybod dim mwy o hanes yr eneth ifanc draw yn Crosby.

Bellach roedd Florence ers tair blynedd yng Nghaer, yn y Chester Royal Infirmary, yn hyfforddi i fod yn nyrs. A chyn hir byddai'n staff-nyrs ac yna'n sister yn Lerpwl, a geiriau ei mam yn dal yn ei chof - 'Tybed sut mae geneth fach Hilda?'

*******

A sawl gwaith y clywais i hanes yr ymchwil a'r daith i gael hyd i eneth fach Hilda? Ei glywed gan fy mam i ddechrau. Oherwydd dyna pwy oedd Florence Ann Edwards. Fu hi ddim yn hawdd cael hyd i'r cyfeiriad.

Parhad ar dudalen 17 >

## Agor capsiwl amser (Parhad o dudalen 16)



Sheila ar y chwith gyda Gwilym Ceiriog a Doris Miriam, brawd a chwaer fy mam, Florence Ann. 1945

Roedd ganddi enw teuluol, ac amcan mai yn ardal Crosby roedden nhw'n byw. Ac mi lwyddodd, a phenderfynu mynd i chwilio ar ei phnawn rhydd nesa, gan wisgo'n hardd, er mwyn i'r Saeson gael gwybod bod y Cymry'n gallu troi allan cystal â nhw! Ond yr ochr arall i'r byd yn y flwyddyn 2008 y clywais i hanner arall y stori. Rhaid nad yn ei chartref y cafodd Mam hyd i Sheila, oherwydd yn ôl yr hanes a gefais gan Sheila ei hun, roedd hi yn y swyddfa, a daeth un o'r staff ati a dweud wrthi, 'There's a very smart lady asking for you.' Rwy'n credu bod ffwr a glas golau a gwallt tonnog yn rhan o'r darlun! Hawdd amgyffred llawenydd Sheila – o'r diwedd, ar ôl yr holl flynyddoedd, roedd rhywun o deulu ei *mam* wedi dod i chwilio amdani. Bu'r ddwy mewn cysylltiad weddill eu hoes, er i Sheila symud i'r ochr arall i'r byd. Buont farw yn 2010, o fewn ychydig fisoedd i'w gilydd.

8 Mai 1945

Yn Queensland yr oedden ni, a 2008 oedd y flwyddyn. Ond mewn amrantiad, roeddem yn ôl yng Nghymru, ac yn agor ffenestr ar y flwyddyn 1945.

'Well, what are we going to do??'

Ar ôl blynyddoedd hir a chreulon, roedd y rhyfel ar ben! Roedd sôn am bartïon stryd ym mhobman. Byddai Lerpwl wedi bod yn ferw gwyllt. Roedd tawelwch y pentref bach yng Nghymru a hithau'n ddiwrnod dathlu diwedd y rhyfel yn rhwystredigaeth i Sheila, a oedd yn dipyn o *party girl*!

'Well. We'll go to chapel ...'

Nid yn union yr ateb a ddisgwyliai. Ond roedd y wên ysgafn ar wyneb yr hen wraig yn Sippy Downs yn arwydd ei bod wedi dod i nabod fy mam yn bur dda dros y blynyddoedd. Ac wedi'r cwbl, dyna fyddai'n iawn – mynd i'r capel i ddiolch am waredigaeth ac am ddiwedd y rhyfel. A dyna wnaed, ac eisteddodd Sheila drwy'r gwasanaeth, heb ddeall yr un gair.

Mynd yn ôl i dŷ fy nhaid, ac ar ôl te, dyma ofyn eto:

'What are we going to do?'

'We'll go down to the Cross.'

Y groesffordd yng nghanol y pentref oedd y Groes, ac yno yr aethant, dow dow.

Dim byd. Fawr neb o gwmpas. Dim sôn am unrhyw fath o barti, roedd hynny'n sicr. Ond yna, dyma weld dau chwarelwr yn cerdded draw yn hamddenol. A dau neu dri arall. Ac yn ddeuoedd a thrioedd y daethon nhw nes roedd y lle'n byrlymu. Yna'n sydyn, dyma un o'r chwarelwyr yn taro emyn. A phawb yn ymuno, a daeth ton ar ôl ton o emynau nes roedd y Groes yn fôr o gân ac yn gyforiog o lawenydd ac o ddiolchgarwch gwirioneddol am weld diwedd ar flynyddoedd o ofn ac ansicrwydd


Roedd yn rhyfedd mai yn Queensland y clywais i'r hanes. Pan holais i fy mam, doedd ganddi hi ddim cof am y digwyddiad arbennig hwnnw, er bod ei chof am y rhan fwyaf o bethau yn loyw hyd ei diwrnod olaf. Ond byddaf yn ddiolchgar tra byddaf inni benderfynu mynd ar y daith honno i Awstralia mewn pryd, cyn i'r hanesyn bach a oedd yn dweud cymaint am fywyd cymdeithasol dyffryn Ceiriog y cyfnod ddiflannu am byth.

Mi fues i'n meddwl am flynyddoedd wedyn fod yma atgof am ffordd o fyw a oedd wedi mynd am byth. Wrth gwrs, mae hynny'n wir i raddau helaeth iawn. Ond eto, eleni, a ninnau yng ngafael yr anfadwch felltith yma, mae canu cyhoeddus wedi brigo eto – cydganu sy'n dod â hiraeth i'r galon a dagrau i'r llygaid; cydganu i fynegi cyd-ddyheu, cydymdeimlad a diolchgarwch. Gobeithio y cawn gyfle cyn hir i gydganu i ddathlu diwedd yr aflwydd hwn hefyd.

*Glenys M Roberts*




## Nofel Newydd Mari Emlyn




Cyhoeddwyd nofel newydd Mari Emlyn gan Wasg Y Lolfa.

Mae'n nofel amlhaenog gyda themâu cyfoes yn rhedeg drwyddi. Mae'r nofel yn dilyn fformat llyfr sydd yn helpu plant dysgu darllen. Wrth i'r nofel fynd rhagddi, mae ffont y geiriau yn mynd yn llai, sef arwydd o ddatblygiad llythrennedd plentyn. Yn Wal mae'n arwydd o'r prif gymeriad, Siân, yn dysgu mwy amdani hi ei hun a theflir goleuni ar y tywyllwch a chodir pontydd yn lle waliau. Mae Wal hefyd yn lyfr clawr caled a gwelir geiriau allweddol yn britho gwaelod y ddalen.

Wrth i Siân geisio ysgrifennu, daw toriad i'r trydan. Yn y tywyllwch, mae'n hel meddyliau am Simon Kaltenbach, ei chymydog, sydd wedi adeiladu wal fawr hyll rhwng y ddau dŷ. Mae hyn yn ei harwain i gofio ei magwrfa a'r waliau fu'n gymaint rhwystr yn ei phlentyndod. Beth ddigwyddodd i'w brawd, Gareth? Pam nad oedd Siân yn hoffi Anti Rita?

Dywedodd Mereid Hopwood yn ei beirniadaeth ar y nofel hon yng nghystadleuaeth Y Fedal Ryddiaith, Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019, fod yma waith 'cynnil, meistrolgar a chwbl wreiddiol'.

Wal, Mari Emlyn. Gwasg y Lolfa. £8.99

Ar gael drwy'r post.

## Dathlu'r twf mewn cefnogaeth i annibyniaeth!

Mae Gwasg y Lolfa'n paratoi cyfrol ddwyieithog i drafod a dathlu'r twf mewn cefnogaeth i Annibyniaeth i Gymru. Bydd y gyfrol yn cynnwys detholiad o straeon gan unigolion sydd wedi tystio i'r twf yma ers Ewros 2016, sydd wedi ymuno â'r ymgyrch yn sgil refferendwm Brexit neu wedi penderfynu yn nyddiau'r Coronavirus mai annibyniaeth i Gymru yw'r unig ffordd ymlaen.

Meddai golygydd y gyfrol, Mari Emlyn: "Byddai'n dda cael straeon o bob cwr o Gymru yn nodi pam eich bod chi wedi dewis cefnogi annibyniaeth i Gymru. Beth oedd y sbardun i chi gefnogi'r ymgyrch? Pam bod angen annibyniaeth? Byddai'n dda hefyd pe gallech anfon lluniau ohonoch chi a'ch teulu/ffrindiau i gyd-fynd â'ch profiad – yn yr Ewros yn 2016, mewn cyfarfodydd canghennau Yes Cymru, ar un o'r gorymdeithiau dros Annibyniaeth, o fewn eich cymuned neu yn eich cartref yn ystod y *lockdown*."

Cysylltwch gyda Mari Emlyn i gynnig eich lluniau a'ch straeon: mari.emlyn@btinternet.com. Dyddiad cau derbyn deunydd yw **1 Mehefin, 2020.**

# Parti'r Efail

**Yr Hogie'n Bump ar Hugain**
**(Ifan Roberts)**

Ar ddechrau mis Mai, fel arfer, byddai enwau Parti'r Efail wedi eu hanfon i Swyddfa'r Eisteddfod Genedlaethol i nodi ein bwriad i gystadlu ym mis Awst. Eleni, roedden ni'n dechrau paratoi ac eisoes wedi cael llety i bawb ar gyfer Tregaron. Byddai'r ymarferion yng Nghanolfan y Tabernacl yn Efail Isaf wedi dechrau codi stêm - wedi'r cwbl, mae eleni'n flwyddyn fawr. Blwyddyn dathlu chwarter canrif o ganu.

Menna Thomas, ein harweinyddes, sy'n adrodd hanes cychwyn y Parti:

*"Ffurfiais i'r Parti i gefnogi Gŵyl Cerdd Dant Bro Ogwr 1995. Ro'n i'n gwybod y byddai cefnogaeth o'r ardal o ran mwyafrif y cystadlaethau ond roedd Pwyllgor yr Wyl yn awyddus i sicrhau digon o gystadleuwyr ar draws y gwahanol adrannau a doedd dim parti cerdd dant o oedolion yn y cyffiniau ar y*



*pryd, er bod yna ddau gôr cerdd dant (sef Merched y Fro yn ardal Pen-y-bont a Merched y Garth yn ardal Pontypridd). Ro'n i'n arwain Merched y Garth yn y cyfnod hwnnw ond doeddwn i ddim yn gweld y gallwn i ddethol parti o blith aelodau'r côr felly fe benderfynes i drio casglu criw o ddynion at ei gilydd. Roedd yn rhaid cyfyngu ar y niferoedd (16 oedd y nifer mwyaf posib o aelodau mewn parti bryd hynny) ac roedd yn rhaid cael cydbwysedd rhwng tenor a bas, felly fe ofynnais i rai o fois Côr Godre'r Garth, gan 'mod i'n aelod o'r côr ar y pryd, a rhai o 'nghyd-athrawon i yn Ysgol Rhydfelen.*

*Er bod y bois yn gantorion da, doedd fawr neb ohonyn nhw wedi canu rhyw lawer o gerdd dant (a doeddwn i erioed wedi gosod ar gyfer lleisiau dynion) felly roedd yn rhaid rhoi digon o amser paratoi i ni'n hunain. Dyna gychwyn arni, felly, tua adeg y Pasg. Fe gawson ni lot o hwyl yn yr ymarferion, yn enwedig wrth drio meddwl am enw i'r Parti...ond stori arall yw honna... Ta waeth, fe ddaeth y diwrnod mawr. Methodd un o'r tenoriaid ddod o hyd i'r rhagbrawf felly y tro cyntaf i'r 16 ganu gyda'i gilydd yn gyhoeddus oedd ar lwyfan yr Wyl! Pedwar parti oedd yn cystadlu - ac fe ddaethon ni'n bedwerydd. Serch hynny, fe gawson ni feirniadaeth gadarnhaol iawn gan Mair Carrington, oedd yn traddodi ar ran y panel, ac anogaeth i ddal ati.*

*Rai wythnosau'n ddiweddarach fe gawson ni swper arbennig yn y Bush yn Sant Hilari er mwyn dathlu'n hymddangosiad ger bron y genedl. Ro'n i'n meddwl ein bod ni hefyd yn dod â'r cyfan i ben y noson honno, ond roedd y bois am barhau. A dyma ni, chwarter canrif yn ddiweddarach, wedi cystadlu'n ddi-dor ymhob Gŵyl Cerdd Dant ac Eisteddfod Genedlaethol ers yr ymddangosiad cyntaf hwnnw ac 'Yma o hyd'!"*



Cadeirydd cynta'r Parti, ac un o gyd-athrawon Menna yn Rhydfelen, oedd Gwilym Thomas, Ystrad Mynach. Dyma'i atgofion o:

*"Nid oes gennyf unrhyw gof o sut dewiswyd fi fel cadeirydd ond cyrhaeddais y swydd gan na allwn ddweud NA wrth Menna. Fy ngwaith pennaf oedd agor a chau drysau*



Parti'r Efail yn cystadlu am y tro cyntaf – Gŵyl Cerdd Dant Bro Ogwr 1995

*Capel Tabernacl. Roedd blwch cadw allweddi mewn bocs yng nghefn y capel. Ar ôl ychydig amser fe symudon ni i'r festri. Ar y dechrau, roedd hi'n cymryd wythnosau i ni ddysgu'r Cerdd Dant ond ar ôl i mi adael dysgwyd yn gyflymach! Daeth y Parti i ddysgu caneuon gwerin yn gyflym ar gyfer y cystadlaethau. Mi roedden ni'n lwcus o gael ein dysgu gan ferch arbennig iawn fel Menna. Dim ond dau o'r Parti oedd yn gallu canu Cerdd Dant ac felly roedd hi'n cymryd tipyn o amser i ddysgu'r darnau erbyn y dyddiau cystadlu.*

*Rhaid i mi ddweud mod i wedi mwynhau fy amser gyda Pharti'r Efail gan fod Menna yn dda iawn iawn am ein dysgu - heb golli dim un ymarfer heblaw am yr un lle es i gysgu yn y tŷ ar ôl dod o'r ysgol!"*

Mae Emlyn Penny Jones, Tonteg, meistr y gwisgoedd, yn nodi na fu erioed rwgnach na fawr o ddadlau wrth ddewis crysau (ond fod un aelod sy'n parhau i ddyheu am grysau gwyrdd!) Mae'n cofio'r trafod fu cyn setlo ar enw i'r parti newydd – yn aml yn ymestyn i'r Carpenters wedi'r ymarfer.

Bu sawl newid yn aelodaeth y parti dros y chwarter canrif a'r ergyd fwyaf, heb amheuaeth, fu colli'r annwyl ac afieithus Gareth "Traws" bum mlynedd yn ôl.

Bu'r cymdeithasu wedi cystadlu neu gynnal cyngerdd yn nosweithiau cofiadwy – taro bargen gydag enillydd Rhuban Glas y cai o help i gneifio gan yr arweinyddes ac un Refailette, pe byddai'n canu unwaith yn oriau mân y bore.

Parhad ar dudalen 19 >







## Parti'r Efail yn Bump ar Hugain (Parhad o dudalen 18)



Buddugol yn yr Wyl Ban Geltaidd, Tralee 2004, ond cwpanau benthyg, gan i'r trefnwyr fethu a dod o hyd i gwpan y gystadleuaeth.

Llety Llandudno'n rhedeg allan o bopeth wedi'r fuddugoliaeth gyntaf ar y gân werin. Yna priodas Huw Wade gydag Anne yn Ne Ffrainc, a'i theulu hi'n berchen ar winllannoedd – boddwyd y cynhaeaf hwnnw! Ac wrth gwrs, cael canu i'r diweddar Ddr Meredydd Evans, yng nghynhadledd flynyddol y Gymdeithas Alawon Gwerin yn Nolgellau.

Wedi'r edrych yn ôl, mae'n cadeirydd presennol, Gwyn Hughes Jones, hefyd am i ni a phawb arall edrych ymlaen:



*"Pum mlynedd ar hugain! Pwy 'se'n meddwl! Chwarter canrif o gyd-ganu, cyd-gerdded, cyd-chwerthin, ac ie, cyd-wylo weithie, yng nghwmni criw hynod arbennig sy' bellach yn rhan annatod o mywyd i.*

*Ydy, mae'r ddoe yn llawn atgofion a phrofiade o bob math, ond beth am yfory? Fel un o fois 'Berdar ma' 'na gerdd sy'n agos iawn at y nghalon i. Un gyfarwydd i nifer ohonoch chi hefyd mae'n siŵr – "Coed Glyn Cynon" - ac yn ôl y bardd anhysbys,*

*"Mwya' adfyd a fu erioed*
*Pan dorred Coed Glyn Cynon"*

*... a hynny gan ddwylo estron! Ac wrth gwrs nid y coed yn unig a ddifethwyd.*
*Mi wn fod nifer ohonoch chi, yn wŷr a gwragedd o bob cwr a chornel o'r ardaloedd hyn, wedi ail-blannu, dros y blynyddoedd, coed ein Cymreictod, ein hiaith, ein traddodiade a'n treftadaeth. A galla'i 'mond gobeithio ein bod ni, bois Parti'r Efail dan arweiniad Menna, wedi bod yn fodd i blannu ambell i dderwen neu gerddinen gerddorol yn y cymoedd hyn yn ystod y chwarter canrif ddwetha'.*



Canu ym mhriodas Huw ac Ann Wade yn Vendres ger Beziers, Ffrainc yn 2002

*Ond mae 'na fwy o goed eto i'w plannu os am weld gwireddu breuddwyd y winllan werdd. Felly, chwi fechgyn ifanc, chwi frodyr iau, dewch aton ni i ddyblu'r gân, neu ffurfiwch bartïon newydd sbon! Ac felly chithe'r merched, unwch yn y gân, fel bo synau ein halawon gwerin a chynghanedd unigryw ein cerdd dant yn atseinio am chwarter canrif eto drwy'r rhan hon o Forgannwg a roed i'n gofal. Mi gewch chi hwyl a ffrindie oes!"*



Parti'r Efail yng Ngŵyl Gerdd Dant 2019

## Arwres arall sy ar y rheng flaen!

. . . wedi bod yn chwilio'r archifau - a joio - a dod o ohyd i stori wnes i ar Megan Clements, Creigiau, ym mis Mai, 2014 - **Ymdrech fawr Megan.** Mae ail ran i'r stori sy'n nodi bod ymdrech Megan a'i ffrindie wedi codi y cyfanswm anhygoel o £100,000 i Gronfa Ymchwil Cancr y Fron.



A hithau bellach yn wanwyn 2020 mae Megan Clements yn ei chanol hi! Ma' Meg yn gweithio fel *'respiratory Physio'* yn Ysbyty Queens Medical Centre, yn Nottingham erbyn hyn. Mae hi wedi bod yn gweithio yno am dair blynedd ers graddio o Brifysgol Nottingham. Mae hi yn trin pobol ifanc - plant ac arddegwyr - yn ddyddiol sy'n diodde o Covid 19 ar hyn o bryd. Mae hi'n gyfrifol am glirio eu hysgyfaint tra eu bod nhw ar y *Ventilators*. Mae wedi gweithio 6 diwrnod yr wythnos hon ac ar 'call' heno. Mae marciau ar ei gwyneb o wisgo'r mwgwd PPE, maent yn gorfod cael eu ffitio ar gyfer rhain, a ma nhw'n gorfod bod yn dynn iawn.

Ar ddechrau'r argyfwng coronavirus yma doedd neb yn gweld yn gliriach na Meg bod yr angen am PPEs yn enfawr - gwelai dros ei hunan bod y prinder yn mynd i arwain at broblemau. Ynghyd â'i mam - Nia, a'i chwaer Ela aethant ati i gysylltu â Llywodraeth Cymru nôl ddiwedd mis Mawrth yn cynnig ffeindio tîm o wirfoddolwyr oedd yn fodlon gwnio'r sgrybs. Cytunodd y Llywodraeth bod hyn yn syniad da - ond roedd yna *brotocol* i'w ddilyn. Apeliodd y merched trwy dudalen Facebook am wirfoddolwyr - a daeth rhai cannoedd yn ôl a dweud eu bod yn fodlon helpu ym mha fodd bynnag y medrent. Roedd hyn yn newyddion gwych! Ond fel llawer o bethau swyddogol mae'r olwynion braidd yn araf yn troi. Mae'r fyddin yn barod - rhai wedi tynnu'r llwch oddi ar eu Singers, eraill wedi oilio fan hyn a fan draw, ambell un yn cael trafferth efo'i fobbin, ac un arall wedi rhoi gwasanaeth i'w pheiriant! Byddwn wrthi gobeithio yn ateb y galw ac yn creu miloedd o'r sgrybs yma i ddiwallu anghenion ein Gwasanaeth Iechyd anhygoel yn fuan.

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

01443 407570

**www.menteriaith.cymru**

Mae Menter Iaith Rhondda Cynon Taf yn parhau i weithredu yn ystod y cyfnod anodd hwn. Mae nifer helaeth o'n staff ar saib gwaith ond mae aelodau o'r tim canolig yn parhau i weithio ac ar gael os oes gennych unrhyw ymholiad neu os hoffech sgwrs neu drafod syniadau. Ewch i'n gwefan www.menteriaith.cymru am fanylion cyswllt ac er mwyn darllen copi electroneg o'ch papur bro http://www.menteriaith.cymru/cysylltiadau-cymraeg/papurau-bro/

Rydym wedi bod yn trafod Parti Ponty, Parti Dâr a Parti Orci gyda'r Cyngor Sir ac rydym wedi penderfynu gohirio yn hytrach na chanslo'r gwyliau hyn. Does dim modd i ni drefnu dyddiadau newydd eto, ond rydym yn parhau i gadw cyswllt â'r holl bartneriaid a lleoliadau.

Mae Mentrau Iaith Cymru sef Menter gydlynnol Genedlaethol yn sicrhau ein bod ni yn Rhondda Cynon Taf yn trafod a chydweithio yn rhanbarthol a chenedlaethol ac rydym yn annog i chi gyd ymweld a thudalen facebook Mentrau iaith o'r enw 'Gweithgareddau Cymraeg yn y Cartref' er mwyn gweld gweithgareddau Cymraeg amrywiol o bob cwr o Gymru

Rydym ninnau wedi bod yn brysur yn trosglwyddo rhai o'n gwasanaethau ar lein dros y mis diwethaf er mwyn i ni gyd barhau i gadw at y canllawiau pwysig o aros adref er mwyn diogelu'n gilydd a sicrhau ein bod yn cefnogi ein cydweithwyr sy'n gweithio ar y rheng flaen. Dyma i chi wybodaeth am y gwasanaethau hynny:

Cadwch cyfryngau cymdeithasol - facebook.com/menterrhondda.cynontaf @MenterIaithRhCT . Gweithgareddau plant am 10yb a gweithgareddau neu wybodaeth amrywiol i bob oed am 3yp bob dydd.

Mae gennym ddwy Sianel youtube newydd sef Sianel Clwb Carco ar gyfer gweithgareddau plant a Sianel TIM ar gyfer pobl ifanc.

Timau Ieuenctid Menter sy'n creu cynnwys Sianel TIM ac mae hefyd ar gael ar ap AMAM.cymru/TIM

Mae Sesiwn Sul yn parhau i ddarlledu'n wythnosol trwy'r cyfnod anodd hwn. Ewch i GTFM ar y we neu ar FM 107.9 rhwng 8 a 10 bob nos Sul.

*'Yr wyf i yn datganu taw hon yw fy Ewyllys olaf a dirymaf unrhyw Ewyllys flaenorol a wnaed gennyf'*

**Ewyllysiau Cymraeg gan**

**Ruth Ceri Jones LL.B. (Hons)**

Os oes diddordeb gyda chi mewn cael Ewyllys yn yr iaith Gymraeg cysylltwch trwy ebost ar **ruthcjones25@aol.com**

( Aelod o Gymdeithas

Ysgrifennwyr Ewyllysiau)

## Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Gan gydnabod erchylltra'r diflastod, pryder, tristwch a galar yn ein sefyllfa bresennol mae un agwedd wedi denu fy sylw, sef, ansawdd yr iaith a ddefnyddir gan wleidyddion a darlledwyr, ar un llaw, a gwyddonwyr, ar y llaw arall, mewn datganiadau a sgyrsiau cyhoeddus. Gyda rhai enghreifftiau nodedig o gyfrifol, mae'r dosbarth cyntaf yn dal i fod yn ysu am 'eglurder', fel petaent yn chwilio am sylwadau y gallant eu defnyddio i fachu'r datgeinydd a pheri iddo/hi ymddangos yn gelwyddog neu yn anwybodus.

Fel arall mae'r gwyddonwyr a meddygon; mae eu datgan hwythau wedi'i fritho gan eiriau megis, 'tua', 'tebygol/tebygolrwydd', 'posibl/posibilrwydd'. Cefais fwynhâd (a bod yn onest) yn ddiweddar o wylio rhaglen deledu pan oedd y newyddiadurwr Robert Peston mewn sgwrs gyda'r Athro Jonathan Van-Tam , Dirprwy Brif Swyddog Iechyd ar fater y 'profion' at ganfod presenoldeb y Coronafirws yn y boblogaeth. Yn ei ddull heriol arferol, sy'n gallu bod yn briodol dreiddgar, dyma Peston yn gwneud datganiad, gan beri i Van-Tam dorri ar ei draws,'Mr Peston, rydych yn gwbl anghywir. Nid felly y mae'r ddau brawf'. Trawyd Peston yn llwyr oddiar ei echel.

Fy meddwl i oedd ei fod wedi derbyn ei haeddiant am ei ddiogi newyddiadurol trwy hepgor ymdrech i wybod mwy am fater lle nad oedd ganddo arbenigedd. A ydw i'n iawn (ac yn hunangyfiawn) wrth holi am ddiffyg gostyngeiddrwydd Peston? Rwyn cofio darllen yn rhywle am sylw gan wleidydd am y gwahaniaeth rhwng gwleidydd a gwyddonydd yn y cyd-destun hwn, 'Mae gwleidydd yn dadlau gyda golwg ar ddod i benderfyniad, mae gwyddonydd yn dadlau gyda golwg ar ddod i gasgliad'.

Yn fy nhŷb i, mae'r ymrafael hyn yn deillio o'r gred gyffredinol gan y cyhoedd fod gwyddoniaeth yn seiliedig ar arferion a ffeithiau cwbl ddiogel a gwir. Yn rhyfedd mae gwyddonaeth, ar draws mathau gwahanol, yn seiliedig ar arsylwadau a mesuriadau sy'n 'sigledig', gan berson a theclyn, pa mor ddysgedig a chain bynnag ydynt. Ni ellir gwarantu manwl-gywirdeb (exactness), yn wir nid yw'r fath gysyniad yn bodoli yn unman. Mae pob mesur yn ddiffygiol, yn annigonol i ryw raddau. Nid ansicrwydd, yn yr ystyr o anhawster dod i benderfyniad, yw'r broblem, ond ansicrwydd, yn yr ystyr o geisio gosod rhif ar bapur sy yn iawn- a llawn- gynrychioli'r mesur dan sylw. Dyna pam mae geiriau megis, 'tua', 'lledgywir', 'bras' mor bwysig mewn gwyddoniaeth. Y term Saesneg am hyn yw 'errors' (nid mistake/camgymeriad) gyda'r arwydd ± yn dynodi maint yr amrywiaeth o'r 'gwir'. Felly, er enghraifft, $11.7 \pm 0.1$, sef, rhwng 11.6 a 11.8.

Cewch brofiad o hyn os mentrwch roi mesur o hyd Tudalen mewn llyfr. Cofiwch os ydych am leihau'r ansicredd, rhaid talu mwy am declyn mwy cain.

Tybed a oes lle i ± mewn iaith a datganiad?

Neville Evans

# Dyn y Ddau Gerbyd

Colli'r tro bach snêc at y fynwent wnes i ac aros i holi wrth ffarm gyfagos, gan wybod nad oeddwn i'n bell iawn o'r lleoliad.



"Na!" Roedd y wraig ag 'acen o ffwrdd' yn reit bendant, "Does 'na ddim eglwys yn agos i fan hyn!" Bu bron i mi â'i choelio. Ond 'doedd dim posib mod i wedi drysu cymaint â hynny. Roeddwn i'n sicr iawn bod eglwys Llanfair yn y Cwmwd rhwng Llangaffo a Dwyran ac mai yno roedd y bedd 'roeddwn i'n chwilio amdano. Doedd y gŵr sydd wedi'i gladdu yno ddim yn perthyn yr un dafn o waed i mi, ond roedd chwilfrydedd wedi arwain fy llwybrau unwaith eto i weld bedd gwr y mae byd busnes weithiau'n tueddu i anghofio am ei fodolaeth.




Dim ond rhyw unwaith y mae gen i gof o'i weld o wyneb yn wyneb. Roeddwn i'n bur gyfarwydd a gweld pobl yn ymweld â ffarm fy modryb a f'ewyrth ym mhentre Dwyran, a'r mwyafrif yn cael eu cyfarch naill ai wrth enw cyntaf neu gyfenw ac enw fferm. Ond roedd hwn yn cael parch - "Mr" yn ei wyneb a'r "hen Wilks" yn ei gefn.

Pan ddois i o hyd i'w garreg yn y fynwent ddiarffordd, dyna ganfod nad oedd y "Mr" yn cael ei arddel yn y fan honno ac nad oedd "yr hen Wilks" ond newydd ddathlu ei 59 mlwydd oed pan fu farw'n sydyn ym 1963.

Roeddwn i'n llwyr gredu i mi ddarllen yr un garreg flynyddoedd ynghynt a bod y frawddeg "dyfeisydd y Landrover" wedi ei ysgrifennu arni. Nid felly! Cofnodir arni mai Wilks gyflwynodd y JET 1 – car dwy sedd â pheiriant tyrbin nwy, 90 milltir yr awr ond yn llosgi yn ôl rhwng 5 a 7 milltir i'r galwyn! Ni fu oes hir i'r Jet 1! Dyn a ŵyr pam na soniwyd am ei gysylltiad â'r Landrover!

*Maurice Fernand Cary Wilks* – 'does 'na ddim llawer o enwau fel yna ym mynwent Llanfair-yn-y-Cwmwd.



Peiriannydd o Coventry oedd o, brynodd gwmni beics Rover gyda'i frawd Spencer yn nechrau 30'au'r ganrif ddiwethaf. Cwmni bach gwneud beics oedd Rover ond dan arweiniad y ddau frawd fe ddaeth yn gyfystyr â cheir moethus a graenus, ceir i rai â digon o gelc.

Maurice Wilks oedd Cadeirydd a Phrif Beiriannydd y cwmni ac wedi cyfnod yr ail-ryfel byd, pan fuon nhw'n cynhyrchu cerbydau milwrol, ailgydiwyd yn y gwaith o adeiladu ceir. Roedd Wilks, fel llawer o fân-fyddigion eraill eu cyfnod, wedi bod yn ymwelydd gwyliau â Sir Fôn, gan aros yng Ngwesty Wern y Wylan ger Llanddona – lle crand, diarffordd a chrachaidd iawn yr adeg honno. Honnir mai ar dywod y Traeth Coch, led tua thri chae o'r gwesty, y tynnodd o fraslun cyntaf yn y tywod gyda'i ffon o gerbyd nesaf cwmni Rover. Cyn hir, prynodd dyddyn ar ochr arall y sir - ochr Niwbwrch i Afon Braint (nid nepell o leoliad Llys Rhosyr tywysogion Gwynedd, y mae copi ohono yn Sain Ffagan bellach). Hen dir digon anodd oedd i dyddyn Glan yr afon. Yno mae'r twyni tywod yn cyrraedd bellaf o Abermenai ac yn ymdoddi â'r corsydd a'r brwyn.

Roedd gan Wilks hen "Jeep" Americanaidd – clamp o gerbyd gyriant pedair olwyn allai grafangu ei ffordd drwy'r brwgaits a'r tywod fel ei gilydd. Rhywle rhwng natur y tirwedd a'r cerbyd afrosgo hwnnw y mae cyfrinach geni'r "Landrover" – cyfaill ffyddlon ffermwyr, anturiaethwyr a chludwyr cymorth dyngarol ar bum cyfandir. Mae sawl fersiwn o stori'r creu – peth ohoni'n rhamant, peth ohoni wedi ei golli drwy golli'r manylion wrth i gwmni Rover symud o law i law ac sydd bellach, ynghyd â Jaguar, yn eiddo i Tata Motors. Roedd hi'n gyfnod o gynni wedi rhyfel, dur yn brin a gwerthiant ceir yn isel. Ym marn Maurice Wilks, roedd mwy o farchnad i gerbyd dau bwrpas alwminiwm – un sionc ar dir cadarn ac ar y ffordd. Roedd ganddo brentisiaid medrus ac fe'i heriodd i addasu peiriant petrol â gyriant salŵn cwmni Rover i yrru cerbyd ar ffrâm ysgafnach. Gan fod digonedd o baent *Aircraft Cockpit Green* i'w gael yr adeg honno, dyna'r lliw roed arno.

Ar lan Afon Braint y cynhaliwyd rhai o'r profion cyntaf, gyda'r prototeip cyntaf *(chwith)* yn debycach i dractor gan fod sedd y gyrrwr a'r llyw ynghanol y sedd flaen. Newidiwyd hynny'n fuan a lansio'r cerbyd yn Sioe Foduron Amsterdam yn 1948.



Mae'r gwybodusion yn honni bod tri chwarter holl gerbydau Landrover werthwyd erioed yn dal i redeg. A'r holl hanes hwn heb ddod i glustiau'r gymdoges 'acen o ffwrdd', hanner milltir o fedd y dyfeisiwr yn Llanfair-yn-y-cwmwd!

Ifan Roberts

# Adfer Cwmni i Ymladd yr Haint



Mae busnes ar Ystad Ddiwydiannol Trefforest a gafodd ei effeithio gan y llifogydd diweddar bellach yn ôl ar ei draed. Mae cwmni Gwalia Healthcare yn cynhyrchu hylif diheintio dwylo gan ddefnyddio adnoddau lleol ac yn ei ddosbarthu ledled y DU.

Mae'r cwmni wedi cynhyrchu cyflenwad brys o 20,000 o boteli ar gyfer staff rheng flaen lleol, ac wedi creu 13 o swyddi newydd o ganlyniad i'w fuddsoddiad sylweddol yn ei linell gynhyrchu.

Mae'r cwmni yn arbenigo mewn cynhyrchu dyfeisiau meddygol a deunydd pacio ar gyfer cynnyrch fferyllol. Roedd yn un o gannoedd o fusnesau a gafodd eu heffeithio'n wael gan Storm Dennis 11 wythnos yn ôl, pan ddaeth ei waith gweithgynhyrchu i ben dros nos.



Meddai Rod Parker, perchennog a chyfarwyddwr Gwalia Healthcare: “Mae ailsefydlu'r busnes wedi'r llifogydd wedi bod yn anodd iawn. Cyn y pandemig, doedden ni ddim yn cynhyrchu hylif na gel diheintio dwylo. Penderfynon ni ganolbwyntio ar gynhyrchu'r pethau yma ein hunain gan fod nifer fawr o'n cwsmeriaid diwydiannol ddim angen cael eu harchebion gennym ni bellach.”




**Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd, 18 Mai 2020 – Stopio'r Cloc ac Ailddechrau**

Thema neges eleni yw dyhead pobl ifanc i weld y byd yn gwrando ac yn dysgu o argyfwng feirws Covid-19. (urdd.cymru/heddwch)

Mae'r Neges Heddwch ac Ewyllys Da yn unigryw i Gymru, ac wedi ei danfon yn flynyddol ers 98 o flynyddoedd - dyma'r unig neges o'i fath yn y byd.

Gofynnaf am eich cefnogaeth i helpu pobl ifanc Cymru ar y 18fed o Fai i wneud hon y neges fwyaf mewn hanes.

Bydd y neges yn cael ei chyhoeddi o gyfrifon cymdeithasol Urdd Gobaith Cymru ar ddydd Llun y 18fed o Fai ac rydym yn gofyn i chi wneud o leiaf 1 o'r 3 peth canlynol:

Aildrydarwch / postio y neges ar eich cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ar yr 18fed o Fai gyda Emoji baner eich gwlad chi / Emoji y byd / Eich hoff Emoji ac #heddwch2020

Paratowch ymateb i'n neges ni - gall hyn fod yn lun/geiriad /gair o gefnogaeth /lluniau / fideo /can gan ddefnyddio #heddwch2020 neu ei ebostio at heddwch@urdd.org

Anogwch eich ffrindiau a chysylltiadau ar draws y byd i ymateb.

Helpwch yr Urdd
Helpwch Gymru
Helpwch ein Pobl ifanc .............
i gyrraedd 15 miliwn o bobl mewn 50 o wledydd ar draws y byd yn 2020!

Eisiau mwy o fanylion e-bostiwch - heddwch@urdd.org

*Tybed ydych chi wedi gweld y gerdd*
***"Did nothing today"*** *(anad)*
*ar ddrws neu fur eich ysgol leol?*
*Dyma rydd-addasiad:*

**"Fawr o ddim"**

Pan ddaw eich plentyn adref ar ddiwedd y dydd
Y cwestiwn ofynnwch chi'n aml fydd
"Beth wnes ti'n yr ysgol, heddiw, bach?"
Ac yna'n cael ateb, ar ôl tipyn o strach:
"Heddiw, wnaethon ni fawr o ddim!"
Ond tybed, tu ôl i'r ateb bach chwim,
Fod yna atebion eraill yn cuddio,
Megis darllen, neu gyfrif, neu hwyrach arlunio,
Neu wrando ar stori, efallai goginio;
Dewis llyfr bach o'r llyfrgell a bodio drwyddo,
Neu ysgrifennu stori, neu helpu ffrind;
Mae'n rhyfedd mor gyflym mae'r diwrnod yn mynd
Wrth fwynhau canu, neu wneud crefft gyda glud,
Neu hwyrach freuddwydio bod chi'n teithio'r byd.
Ac yn bedair neu bump mae hi'n andros o dreth -
Haws dweud "Fawr o ddim" na gorfod cofio pob peth!

***Ifan Roberts***

